

Mamau mewn achosion gofal mynych: Tystiolaeth newydd ar gyfer Cymru a Lloegr

Awduron

Bachar Alrouh
Mariam Abouelenin
Karen Broadhurst
Laura Cowley
Steffi Doebler
Ian Farr
Linda Cusworth
Laura North
Claire Hargreaves
Ashley Akbari
Lucy Griffiths
David Ford

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig darlun wedi'i ddiweddarau o raddfa a phatrwm mamau mewn achosion gofal mynych yng Nghymru a Lloegr. Mae'n defnyddio data poblogaeth y gwasanaeth llawn a gynhyrchir fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru. Cyfunir ystadegau disgrifiadol â dadansoddiad ystadegol o risg menywod o ddychwelyd i'r llys.

Awduron

Dr Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Mariam Abouelenin, Prifysgol Caerhirfryn

Yr Athro Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Laura Cowley, Prifysgol Abertawe

Dr Steffi Doebler, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Ian Farr, Prifysgol Abertawe

Dr Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Laura North, Prifysgol Abertawe

Dr Claire Hargreaves, Prifysgol Caerhirfryn

Ashley Akabari, Prifysgol Caerhirfryn

Dr Lucy Griffiths, Prifysgol Abertawe

Yr Athro David Ford, Prifysgol Abertawe.

Cyfeiriad argymelledig

Alrouh et al. (2022). *Mamau mewn achosion gofal mynych: Tystiolaeth newydd ar gyfer Cymru a Lloegr*. Crynodeb o'r adroddiad. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

<https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/mothers-in-recurrent-care-proceedings-new-evidence-for-england-and-wales>

Mae'r crynodeb a'r adroddiad ar gael yn Saesneg hefyd drwy'r ddolen uchod.

Ymwadiad

Ariannwyd y prosiect hwn gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid rhai Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad, o reidwydd.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2022

100 St John Street, London EC1M 4EH Ffôn: 020 7631 0566

Elusen gofrestredig 206601

[nuffieldfjo.org.uk](https://www.nuffieldfjo.org.uk) | [@NuffieldFound](https://www.nuffieldfoundation.org)

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awduron ddiolch i aelodau eraill o'r tîm sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, a ariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield – gan gynnwys Jon Smart, Kerina Jones a Simon Thompson (Prifysgol Abertawe).

Diolchwn i Laura Scale (Cafcass Cymru), Saif Ullah (Cafcass), Leslie Humphreys (Prifysgol Canol Sir Gaerhirfryn), Pamela Cox (Prifysgol Essex), Mark Carter, Liz Baker a Ceri Evans (Barnardo's Cymru), Jules Hillier a Ellen Marks (Pause), Lisa Harker a Mary Ryan (Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield), Susannah Bowyer (Research in Practice), Ei Hanrhydedd y Barnwr Rachel Hudson (Barnwr Teulu Dynodedig, Gogledd-ddwyrain Lloegr), Ei Hanrhydedd y Barnwr Gillian Matthews (KC), Claire Mason a Shelley Watson (Prifysgol Caerhirfryn) am eu cymorth a'u hadolygiad adeiladol o'r adroddiad hwn.

Diolch yn arbennig hefyd i'n grŵp cyfeirio o famau o ogledd-orllewin Lloegr am eu sylwadau am fersiynau cynharach o'r adroddiad hwn.



Population Data Science
at Swansea University



Cynnwys

| | |
|----------------------------|----|
| Crynodeb gweithredol | i |
| Cyflwyniad | 1 |
| Dulliau | 12 |
| Canfyddiadau | 17 |
| Trafodaeth | 41 |
| Casgliad | 47 |
| Cyfeiriadau | 48 |
| Atodiad A | 53 |
| Atodiad B | 58 |
| Atodiad C | 75 |

Crynodeb gweithredol

Bydd cyfran sylweddol o famau sy'n ymddangos mewn set gyntaf o achosion gofal yn dychwelyd i'r llys mewn achos newydd ac yn colli sawl plentyn o'u gofal. O ystyried y galw mawr parhaus ar lysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr, mae sut i atal ymddangosiadau mynych menywod mewn achosion gofal yn parhau'n fater taer i'r system cyfiawnder teuluol, i'r teuluoedd cysylltiedig ac i gymdeithas yn ehangach.

Mae'r ymchwil hon yn rhoi darlun wedi'i ddiweddarau o raddfa a phatrwm y mamau mewn achosion gofal mynych yng Nghymru a Lloegr gan ddefnyddio data poblogaeth a gynhyrchwyd fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru rhwng 2011/12 a 2020/21.

Er mwyn ceisio deall proffil ac anghenion menywod mewn achosion mynych yn well – ac felly teilwra gwasanaethau'n well – mae'r dadansoddiad yn gwahaniaethu rhwng mamau sy'n dychwelyd i'r llys gyda phlentyn newydd (baban newydd, yn nodweddiadol) a mamau sy'n dychwelyd i'r llys gyda'r un plentyn oherwydd bod trefniant gofal wedi chwalu neu mae angen newid y trefniant (er enghraifft, lleoli gyda theulu a frindiau).

O ran menywod sy'n dychwelyd i'r llys gyda phlentyn newydd (y mae'r dadansoddiad yn ei alw'n 'Llwybr 1'), yr her i wasanaethau yw sut i helpu rheoli poen cymryd plentyn cyntaf neu blant dilynol oddi arnynt yn dilyn achosion gofal a sicrhau bod digon o gymorth dwys, o ansawdd digonol, ar gael i helpu mamau (a'u partneriaid) fel na fydd baban dilynol yn cael ei gymryd oddi arnynt.

O ran menywod sy'n dychwelyd i'r llys gyda'r un plentyn (Llwybr 2), yr her yw sut i gefnogi trefniadau pan fydd rhai eraill yn rhoi gofal, neu gefnogi ailuno, i sicrhau bod mwy o obaith i'r cynlluniau hyn ar gyfer y plentyn lwyddo.

Canfyddiadau allweddol

- Yng Nghymru a Lloegr, mae perygl y bydd oddeutu 1 o bob 4 menyw yn dychwelyd i'r llys ar gyfer achosion gofal dilynol o fewn 10 mlynedd o ymddangos am y tro cyntaf mewn achos gofal. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson â chanfyddiadau a adroddwyd yn 2015 ar gyfer Lloegr ac yn 2017 ar gyfer Cymru.
- Mae perygl y bydd oddeutu 1 o bob 5 mam sy'n dychwelyd i'r llys gyda phlentyn newydd (yn hytrach na'r plentyn a fu'n destun yr achos blaenorol) yn dychwelyd i'r llys o fewn 10 mlynedd.

- Mae risg dychwelyd i'r llys ar ei huchaf o fewn y tair blynedd gyntaf i'r achos cyntaf. Yn sgil dychwelyd i'r llys am y tro cyntaf, mae risg dychwelyd ymhellach yn cynyddu.
- Mae risg dychwelyd i'r llys yn uwch i famau a roddodd enedigaeth gyntaf pan oeddent yn ifanc ac os bydd y plentyn yn y set gyntaf o achosion yn destun gorchymyn lleoli (cynllun mabwysiadu). Yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifir bod cyfran uchel o famau mewn achosion gofal mynych (dros 40%) rhwng 14 a 19 oed adeg genedigaeth eu plentyn cyntaf.
- Mae gwahaniaethau rhanbarthol amlwg rhwng cyfraddau mynychder yn Llundain a de-orllewin Lloegr ar y naill law, ac ardaloedd eraill o Loegr ar y llaw arall. Mae cyfraddau arbennig o uchel yng ngogledd-ddwyrain a chanolbarth Lloegr, yn Swydd Efrog a Humber, ac yng ngogledd-orllewin Lloegr.

Argymhellion allweddol

Er mwyn datblygu agenda i leihau achosion gofal mynych, mae'r pum pwynt canlynol yn allweddol.

- Mae angen dechrau paratoi ar gyfer bod yn rhiant cyn beichiogrwydd cyntaf ac mae angen cryfhau'r cymorth i rieni ifanc, gan gynnwys ymadawyr gofal, yn ystod beichiogrwydd, yn ystod achosion gofal, a'r tu hwnt. Mae'r ymchwil hon yn amlygu risg uchel y bydd mamau ifanc yn dychwelyd i'r llys, gan adeiladu ar ymchwil flaenorol a adroddodd fod llawer o'r mamau ifanc hyn hefyd yn ymadawyr gofal (Broadhurst et al. 2017; Broadhurst and Mason 2020; Boddy et al. 2020).
- Mae tystiolaeth o risg uwch yn dilyn yr achos cyntaf a ailadroddir yn awgrymu mai'r ateb gorau i batrwm posibl achosion mynych ar ôl cymryd plentyn oddi arnynt fyddai cynnig cymorth dwys, wedi'i deilwra, i bob rhiant yn y sefyllfa honno er mwyn ailadeiladu eu bywyd. Hawl gyffredinol i help parhaus gan wasanaethau arbenigol sy'n canolbwyntio ar oedolion fyddai'r ffordd orau ymlaen.
- Mae angen codi'r bar o ran sicrhau bod adnoddau ar gael i gasglu a chyfiosod data gwerthuso ardal leol (tra'n cydnabod her dod o hyd i gyllid ar gyfer gwerthusiadau ar raddfa fechan). Ar hyn o bryd, mae gan wasanaethau ddata gwerthfawr – ond prin yw coladu'r data hwn ar draws gwasanaethau. Ar lefel genedlaethol, dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF archwilio opsiynau ar gyfer cynnwys data monitro ailddigwydd o fewn ystadegau llysoedd teulu.
- Rhaid cymharu data canlyniadau gwerthuso â'r hyn y gallem fod wedi'i ddisgwyl pa na bai gwasanaethau wedi bod ar gael.

- Rhaid i fuddsoddiadau a datblygiad gwasanaethau gyd-fynd yn agosach ag angen rhanbarthol. Mewn ardaloedd â chyfraddau uchel o achosion gofal, gallai symud adnoddau ymhellach i fyny i atal achosion rhag ailddigwydd fod yn anodd, felly mae angen neilltuo cyllid yn gymesur ag angen.

Diffiniadau a therminoleg

Cafcass a Cafcass Cymru

Mae'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd yng Nghymru a Lloegr yn rhoi cyngor annibynnol i'r llys ar les pennaf y plentyn ym mhob achos gofal. Oherwydd bod gwarcheidwad yn cael ei benodi am gyfnod achosion gofal, mae cofnodion y mae Cafcass a Cafcass Cymru'n eu cynhyrchu fel mater o drefn yn adnodd amhrisiadwy ar gyfer ymchwil.

Achosion gofal

Cyhoeddir achosion gofal o dan adran 31 Deddf Plant 1989 pan fydd plentyn wedi dioddef – neu ystyrir bob perygl i'r plentyn ddioddef – niwed sylweddol.

Episod cyntaf a ailadroddir ac ail episod a ailadroddir

Episodau achosion gofal sy'n dilyn yr episod mynegai.

Cyfradd y perygl

Y tebygolrwydd amodol y bydd mam yn dychwelyd i'r llys ym mlwyddyn *t*, gan nad yw wedi dychwelyd o'r blaen.

Episod mynegai

Y set gyntaf o achosion yn ein ffenestr arsylwi (2011/12 tan 2020/21) ar gyfer unrhyw fam benodol.

Episod, episodau neu achosion cyfreithiol

Y gweithgarwch sy'n digwydd yn y llys teulu rhwng cyhoeddi achosion gofal a chau'r achos gan Cafcass neu Cafcass Cymru.

Mam

Mae'n cyfeirio at famau sy'n cael eu cysylltu â'u plant biolegol o fewn data rheoli achosion sy'n cael ei gynhyrchu fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru.

Llwybrau 1 a 2

Yn yr adroddiad hwn, defnyddiwn y termau hyn i wahaniaethu rhwng menywod sy'n dychwelyd i'r llys gyda phlentyn newydd (y mae'r dadansoddiad yn ei alw'n 'Llwybr 1') a menywod sy'n dychwelyd i'r llys gyda'r un plentyn (Llwybr 2).

Dadansoddiad goroesi

Casgliad o weithdrefnau ystadegol ar gyfer dadansoddi'r cyfnod disgwylidig hyd nes bydd digwyddiad fel achos gofal a ailadroddir yn digwydd. Mae'r dulliau hyn yn galluogi i debygolrwydd digwyddiadau gael ei gyfrifo'n fwy dibynadwy pan fydd unigolion yn cael eu dilyn i fyny am gyfnodau amrywiol.

Cyflwyniad

Bydd cyfran sylweddol o famau sy'n ymddangos mewn set gyntaf o achosion gofal yn dychwelyd i'r llys mewn achos newydd ac yn colli sawl plentyn o'u gofal. O ystyried y galw mawr parhaus ar lysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr, mae sut i atal ymddangosiadau mynych menywod mewn achosion gofal yn parhau'n fater taer i'r system cyfiawnder teuluol, i'r teuluoedd cysylltiedig ac i gymdeithas yn ehangach.¹

Yn ogystal â gosod beichiau sylweddol ar awdurdodau lleol a'r llysoedd, mae cymryd rhan yn fynych mewn achosion gofal yn achosi trallod difrifol i famau, eu partneriaid a'r rhwydweithiau teuluol ehangach (Broadhurst et al. 2017; Broadhurst and Mason 2020; Boddy et al. 2020). Er bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol weithredu i ddiogelu plant – gan gynnwys cyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant neu dynnu'r cyfrifoldeb oddi arnynt – mae'r un mor hanfodol mynd ar drywydd pob llwybr cymorth i atal cymryd rhan yn fynych yn y llys teulu.

Ar ôl cyhoeddi'r amcangyfrif cyntaf o ymddangosiadau mynych mamau mewn achosion gofal yn Lloegr, a ddarganfu fod risg y bydd o leiaf 1 o bob 4 menyw yn dychwelyd (Broadhurst et al. 2015),² mae ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei alw'n gyffredin yn broblem 'achosion mynych o gymryd plant oddi ar eu rhieni' wedi cynyddu, gan ysgogi newid yn nhirlun darpariaeth ataliol.³ Mae proses fapio ddefnyddiol iawn gan Mason and Wilkinson (2021, ar ddod) yn taflu goleuni ar nifer y gwasanaethau sydd ar waith yn Lloegr. Datgelodd y broses fapio hon, a ddiweddarwyd yn ddiweddar, wasanaethau arbenigol (neu ddatblygiadau sy'n mynd rhagddynt) mewn 84 awdurdod lleol – ac absenoldeb gwasanaethau arbenigol mewn 46 awdurdod lleol. Nid oedd yn glir p'un a oedd gwasanaethau ar gael mewn 22 awdurdod lleol pellach (Mason and

¹ Disgrifiodd Syr Andrew McFarlane fod lefel y gwaith sy'n weddill yn y llysoedd teulu 'ar ei uchaf erioed' (McFarlane 2022). Mae pandemig COVID-19 wedi gosod straen pellach ar y llysoedd, sydd wedi bod dan straen difrifol ers nifer o flynyddoedd.

² Seiliwyd yr amcangyfrif gwreiddiol ar famau a arsylwyd dros ffenestr arsylwi 7 mlynedd.

³ Yn ogystal â Pause (gafodd ei beilota yn 2013), roedd nifer o wasanaethau mynych eraill yn cael eu sefydlu yn 2014: Suffolk (Positive Choices), Salford (Strengthening Families) a Brighton a Hove (Looking Forward). Dilynodd gwasanaeth Reflect yng Nghymru yn 2016. Ers hynny, mae llawer mwy o wasanaethau wedi'u datblygu. Gweler gwefan Supporting Parents, <https://supportingparents.researchinpractice.org.uk/>, sy'n cynnwys map o wasanaethau, gwybodaeth am Gymuned Ymarfer ar-lein y gwasanaethau gofal mynych a dolenni i adnoddau a ddatblygwyd gan ac ar gyfer gwasanaethau o'r fath.

Wilkinson 2021).⁴ I'r rhai a oedd yn ddigon ffodus i dderbyn gwasanaeth, mae cymorth dwys seiliedig ar berthynas wedi helpu llawer o famau i newid trywydd eu bywyd y tu hwnt i ddiwedd achosion gofal.⁵ Mae corff bach, ond pwysig, o dystiolaeth werthusol (Cox et al. 2017, 2020; Roberts et al. 2018; Boddy et al. 2020) yn rhoi tystiolaeth gyson fod menywod sy'n ymgysylltu â gwasanaethau ataliol yn llai tebygol o ymddangos mewn achosion gofal dilynol. Mae tystiolaeth gyson nad yw achosion mynych o gymryd plant oddi ar eu rhieni yn anochel, gyda'r help cywir, ac er gwaetha'r her yn gysylltiedig â dod dros hynny, gall llawer o famau ymgysylltu â gwasanaethau a newid trywydd eu bywyd.⁶ Mae Mason and Wilkinson (2021) yn amlinellu elfennau cyffredin darpariaeth bresennol y gwasanaethau, sy'n cynnwys help dwys i sefydlogi bywyd a mynd i'r afael â hanes o drawma, gan gynnwys cymryd plentyn oddi arnynt. Yn ogystal, mae gwasanaethau'n mynd ati i helpu mamau i ymgysylltu ag amrywiaeth o wasanaethau iechyd corfforol, rhywiol ac iechyd meddwl.

Fodd bynnag, mae arloeswyr ymarfer yn nodi bod llawer o'r gwasanaethau hyn yn rhai bach iawn a, hefyd, maent wedi lleisio pryder am gynaliadwyedd gwasanaethau oherwydd bod cyllid yn aml yn annigonol ac yn para cyfnod penodol yn unig. Yn wir, mae rhai ymyriadau addawol eisoes wedi cau, er gwaethaf arwyddion o'u heffeithiolrwydd.⁷ Mae awdurdodau lleol sydd dan bwysau mawr wedi cael trafferth ymrwymo gwariant yn gyson ar brosiect sy'n anelu at atal achosion gofal mynych, yn wyneb blaenoriaethau sy'n cystadlu. (Mason and Wilkinson 2021).

Ar hyn o bryd, mae diffyg data cenedlaethol a dadansoddiad lleol am gyfraddau achosion gofal mynych yng Nghymru a Lloegr:

- nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod am nifer yr achosion gofal mynych fel mater o drefn mewn gwybodaeth i'r llywodraeth
- nid yw ystadegau'r llywodraeth yn cynnwys unrhyw ddata ciplun na thuedd am achosion gofal mynych⁸
- nid yw llysoedd teulu yn cofnodi nac yn amlygu achosion mynych fel mater o drefn.

Mae hyn yn golygu nad yw awdurdodau lleol yn gwybod yn nodweddiadol am raddau achosion gofal mynych yn eu hardal, nac am y costau

⁴ Am ddadansoddiad llawn o nifer y gwasanaethau ym mhob rhanbarth, gweler <https://supportingparents.researchinpractice.org.uk/> a hefyd Mason and Wilkinson (2021, t.9).

⁵ Am ddata canlyniadau, gweler Boddy et al. (2020) a Cox et al. (2020).

⁶ Mae data canlyniadau am gyfrannau'r mamau sydd wedi osgoi achosion gofal dilynol ar gael yn Boddy et al. (2020) ac yn Cox et al. (2020, 2021).

⁷ Er enghraifft, mae naw practis Pause (gwasanaethau lleol) wedi cau yn Lloegr ac mae gwasanaethau gofal mynych eraill yng Nghymru a Lloegr naill ai wedi cau neu cwtogwyd ar eu cyllideb yn sylweddol.

⁸ Mae Cafcass yn cyhoeddi ystadegau ar achosion gofal, ond nid ystadegau am achosion mynych. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi ystadegau'r llysoedd teulu, ond nid ystadegau am achosion mynych. Mae hyn i'r gwrthwyneb i'r llysoedd troseddol, lle y mae ystadegau'r llywodraeth yn monitro'r duedd i aildroseddu.

cysylltiedig. At hynny, nid yw data gwerthuso wedi cael ei integreiddio'n genedlaethol yn ddigonol. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod faint o fenywod y mae gwasanaethau yn eu cyrraedd yn genedlaethol, ac nid ydym yn gwybod ychwaith a yw gwasanaethau'n cael eu targedu at yr ardaloedd â'r angen mwyaf. Ni wnaeth proses fapio Mason and Wilkinson (2021) ymestyn i sicrhau data am nifer y menywod a oedd wedi derbyn gwasanaethau, na chanlyniadau. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fonitro cynnydd tuag at leihau achosion gofal mynych, o ystyried datblygiadau anghyson yn Lloegr a chwestiynau am raddfa'r ehangu yng Nghymru ac yn Lloegr.

Cyfraniad yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun wedi'i ddiweddarau o raddfa a phatrwm y mamau mewn achosion gofal mynych yng Nghymru a Lloegr, gan ddefnyddio data poblogaeth y gwasanaeth llawn a gynhyrchwyd fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru rhwng 2011/12 a 2020/21. Y fam yw'r uned ddadansoddi. Mae'r sampl dadansoddi llawn yn cynnwys 90,820 o famau yn Lloegr a 5,637 o famau yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn darparu ystadegau disgrifiadol ac yn defnyddio modelu (goroesi) ystadegol i amcangyfrif y risg y bydd menywod yn dychwelyd i'r llys. Mae'r adroddiad yn addasu'r dulliau a ddatblygodd Broadhurst a'i gydweithwyr (2015, 2017). Yn ogystal, mae'r dadansoddiadau'n elwa o ffenestr arsylwi hwy nag o'r blaen (10 mlynedd yn hytrach na 7 mlynedd). Yn ogystal ag amcangyfrif risg dychwelyd dros y ffenestr arsylwi gyfan, caiff dadansoddiadau eu cwblhau a'u cymharu hefyd cyn ac ar ôl 2014, oherwydd bod newidiadau i bolisi a deddfwriaeth a gyflwynwyd yn 2013/14 wedi gwneud newidiadau mesuradwy i ymarfer yn ymwneud â hyd achosion (e.e. yr amserlen statudol 26 wythnos ar gyfer achosion gofal).⁹ Yn ogystal, ystyrir bod nifer o ddyfarniadau uchel eu proffil y llys teulu (2013/14) wedi lleihau nifer y plant sy'n cael eu gosod i'w mabwysiadu. At hynny, cyflymodd y rhan fwyaf o wasanaethau ataliol newydd yn ail hanner ein ffenestr arsylwi (2014/15-2020/21). Mae gwahanu ein dadansoddiad fel hyn yn caniatáu am gymharu graddfa a phatrwm ymddangosiadau mynych menywod mewn achosion gofal cyn ac ar ôl 2014, yng ngoleuni datblygiadau diweddar i bolisi, deddfwriaeth ac ymarfer. Fel yr uchod, fodd bynnag, mae diffygion mewn data cenedlaethol yn golygu na fu'n bosibl craffu'n uniongyrchol ar unrhyw berthynas achosol rhwng y gwasanaethau a ddarperir ac achosion mynych.

Yn ogystal â darparu darlun wedi'i ddiweddarau o achosion gofal mynych ar gyfer sampl mawr o famau yng Nghymru a Lloegr, mae'r canfyddiadau hefyd yn ymestyn gwybodaeth trwy wahaniaethu ymhellach rhwng

⁹ Cyflwynodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 nifer o newidiadau pwysig, a amlinellir yn yr adran nesaf.

achosion mynych. Disgrifiwn ddau fath gwahanol o lwybrau mynych a rhoddwn gyfres o ddadansoddiadau sy'n disgrifio'n fanylach fenywod mewn achosion o gymryd plant oddi arnynt fwy nag unwaith (Llwybrau 1 a 2 – gweler isod a Ffigur 1 am ddisgrifiad llawnach). Am y tro cyntaf, sefydlwn hefyd a oes mwy o risg achosion mynych pellach i fenywod â hanes o set gyntaf o achosion gofal a ailadroddir. Yn ogystal, archwiliwn yr amrywiant yng nghyfraddau'r achosion gofal mynych ar lefel ranbarthol ac ar lefel awdurdod lleol i roi darlun cliriach o'r manau lle mae'r angen mwyaf am wasanaethau.

Er bod y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar wybodaeth a'i hymestyn, mae nifer o gwestiynau i'w hateb o hyd. Mae adran olaf yr adroddiad hwn yn amlygu'r cwestiynau hyn ac yn amlinellu'r camau nesaf o ran ymchwil.

Gan ddefnyddio data Cafcass neu Cafcass Cymru ar ei ben ei hun, nid ydym wedi gallu ateb cwestiynau am fynychder ac ethnigrwydd neu anabledd, gan nad yw'r data'n ddigon aeddfed eto neu am nad yw ar gael. Mae Cafcass wedi dechrau casglu data am ethnigrwydd ac anabledd, ond ni fyddwn yn gallu defnyddio'r data hwn i graffu ar fynychder hyd nes bydd data nifer o flynyddoedd ar gael.

Achosion gofal yng Nghymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr, mae adran 31 (a.31) Deddf Plant 1989 yn amlinellu'r trothwy ar gyfer cyhoeddi achosion gofal, sef bod plentyn wedi dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i weithred neu ddiffyg gweithredu gan rieni. Gall y niwed hwn godi o gamdriniaeth neu esgeulustod (Brandon et al. 1999). Cynyddodd achosion gofal yn gyflym tu hwnt 2008/9 ymlaen ac, yn 2015, cyhoeddodd Syr James Munby, Llywydd Adran y Teulu ar y pryd, bod argyfwng ar ddod yn y llysoedd teulu oherwydd nifer gynyddol yr achosion gofal (Munby n.d.). Dilynodd yr Adolygiad o'r Argyfwng Gofal yn 2017/18, gan gyflwyno opsiynau am newid gyda'r nod o ail-hoelio sylw ymarfer ar gymorth effeithiol ac amserol i atal yr angen am achosion gofal, lle y bo'n bosibl (Family Rights Group 2018). Yn fwy diweddar, mae argymhellion gan y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus (2021) i ymateb i'r pwysau parhaus ar y llysoedd teulu hefyd wedi ceisio cryfhau cyfleoedd i atal achosion gofal, trwy wella ymarfer amserol cyn achosion sy'n gynhwysol o deuluoedd, *inter alia*.¹⁰

Fodd bynnag, mae lefel yr achosion gofal wedi aros yn uchel ac mae pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r pwysau ar y llysoedd oherwydd

¹⁰ Mae'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus yn grŵp a benodwyd gan Lywydd Adran y Teulu, Syr Andrew McFarlane ac a arweinwyd gan Feistr Ustus Keehan, gyda'r nod o adolygu amddiffyn plant a'r Llys Teulu, a gwneud argymhellion yn eu cylch, yn sgil cynnydd pellach mewn achosion gofal yn 2016/17 ac yn 2018/19. Mae'r Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod pwys ar rwydweithiau teuluol ehangach a'u bod yn cael cefnogaeth i ddarparu gofal, lle na all plant fyw gyda'u rhieni.

bod achosion wedi cronni.¹¹ Ar hyn o bryd, mae nifer y plant mewn gofal yn Lloegr ar ei uchaf erioed ac mae'r niferoedd yn uchel o hyd yng Nghymru.¹² At hynny, nid yw lefel yr achosion gofal wedi'u dosbarthu'n gyfartal – yn hytrach, mae'r lefelau uchaf mewn ardaloedd sydd â'r lefelau mwyaf o amddifadedd economaidd gymdeithasol (Pattinson et al. 2021; Doebler 2022). Mae cysylltiad cryf hefyd rhwng cyfraddau'r plant mewn gofal ac amddifadedd (Bywaters et al. 2016; Bennett et al. 2020). Am yr holl resymau hyn, mae'n hanfodol bod y ddwy awdurdodaeth yn parhau i chwilio am opsiynau yn lle achosion gofal, sy'n cynnwys lleihau risg rhieni o gymryd rhan mewn achosion mynych.

Ar ddiwedd achosion gofal, gall plant ddychwelyd i rieni, gallant gael eu gosod gyda gofalywyr maeth neu deulu a ffrindiau, neu gallant gael eu mabwysiadu. Er nad yw achosion gofal bob amser yn arwain at gymryd y plentyn o ofal ei rieni yn barhaol, mewn cyfran uchel o achosion sy'n ymwneud â phlant o dan flwydd oed yng Nghymru a Lloegr, bydd y plant hynny'n cael eu mabwysiadu (Broadhurst et al. 2022). Darganfu Broadhurst et al. (2018) fod 47% o fabanod newydd anedig, ar gyfartaledd, yn destun cynlluniau i'w mabwysiadu (gorchmynion lleoli) rhwng 2010/11 a 2016/17. At hynny, mae achosion gofal yn cael eu cychwyn ar gyfer nifer gynyddol o fabanod adeg eu genedigaeth, gyda'r cyfraddau uchaf yn cael eu cofnodi dros gyfnod yn yr ardaloedd mwyaf amddifad (Pattinson et al. 2021; Doebler 2022). Gall gofal y tu allan i'r cartref fod yn fuddiol iawn i blant. Fodd bynnag, nid dyma'r sefyllfa yn gyson i bob plentyn. Ar hyn o bryd, nid oes digon yn hysbys am y canlyniadau i frodyr/chwiorydd sy'n cael eu cymryd yn olynol oddi ar yr un mamau a thadau. Adroddodd ymchwil ddiweddar yn yr Alban mai dim ond cyfran fechan o fabanod a oedd yn cael eu gosod gyda'u brodyr/chwiorydd biolegol (Cusworth et al. 2022). Nid ydym yn gwybod ychwaith beth yw'r effaith tymor hwy i fabanod pan gânt eu cymryd ymaith adeg genedigaeth.

I ymchwilywyr sy'n ceisio deall newidiadau dros gyfnod i achosion gofal, mae'n bwysig ystyried nifer o ddatblygiadau pwysig yn 2013/14. Yn gyntaf, cyflwynodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (a.14(2)) amserlen statudol ar gyfer cwblhau achosion gofal, sef 26 wythnos. Adeg gweithredu'r ddeddfwriaeth, nid oedd hi'n anghyffredin i achosion bara 40 i 50 wythnos. Nododd ymchwil flaenorol i achosion gofal mynych gyfran uchel o achosion a oedd yn gorgyffwrdd neu'n cael eu cyfuno gan fod baban newydd wedi'i eni yn ystod set gyntaf o achosion (Broadhurst 2017).¹³ Mesurodd

¹¹ Gweler Troednodyn 1.

¹² Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, roedd 80,850 o blant mewn gofal yn Lloegr, gan gynnal tuedd ar i fyny (Yr Adran Addysg 2022). Yng Nghymru, roedd 7,265 o blant mewn gofal yn 2021, gan gynnal tuedd ar i fyny hefyd (Stats Cymru 2021).

¹³ Yn flaenorol, pe bai baban yn cael ei eni yn ystod achosion gofal brawd/chwaer hŷn, nid oedd hi'n anghyffredin i'r llys gyfuno achosion, fel bod y baban newydd-anedig a'r brawd/chwaer hŷn yn cael eu hystyried gyda'i gilydd mewn un achos. Fodd bynnag, mae amserlen statudol fyrrach ar gyfer achosion gofal yn golygu a) mae'n llai tebygol y bydd baban newydd yn cael ei eni yn ystod achos a b) bod y llys yn barod i atal achos cyfredol

Broadhurst et al. achosion a wnaeth orgyffwrdd, gan nodi bod cais ar gyfer plentyn newydd wedi'i gyhoeddi mewn 36% o achosion tra'r oedd achos ar gyfer brawd/chwaer hŷn yn mynd rhagddo (2015). O ystyried yr amserlen statudol fyrrach o lawer ar gyfer cwblhau achosion gofal, byddem yn disgwyl i gyfran yr achosion wedi'u cyfuno ostwng. Yr ail ddatblygiad pwysig yn y flwyddyn 2013/14 oedd y dyfarniad a wnaed, a'r arweiniad a roddwyd, yn achos uchel ei broffil Re B-S (2014), yn dilyn achos cynharach Re B (2013).¹⁴ Yn yr achos hwn, pwysleisiodd Llywydd Adran y Teulu ar y pryd, Syr James Munby, mai opsiwn eithriadol oedd mabwysiadu heb gydsyniad y rhieni, dewis olaf i'w ystyried dim ond lle nad oedd unrhyw ddewis arall. O ganlyniad, dadleuodd Syr James o blaid dadansoddiad gwell o lawer o'r holl opsiynau parhaol i blant. Yn dilyn Re B-S, bu gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael eu gosod i'w mabwysiadu a chynnydd cydamserol mewn gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig (CoramBAAF n.d.). Mae cyfrif am y datblygiadau hyn mewn cyfraith achosion yn 2013/14 yn bwysig, oherwydd bod ymchwil flaenorol wedi adrodd bod cyfran uwch o fabanod mewn achosion mynych yn destun cynlluniau mabwysiadu (Broadhurst et al. 2015; 2017).

Achosion gofal mynych: Beth wyddom ni?

Yn 2015, sefydlodd Broadhurst a'i gydweithwyr yr amcangyfrif cyntaf o achosion gofal mynych yn Lloegr, gan sefydlu graddfa a phatrwm ymddangosiadau mynych menywod mewn achosion gofal (Broadhurst et al. 2015). Ers hynny, lluniwyd amcangyfrifon pellach ar gyfer Lloegr a Chymru (Broadhurst et al. 2017; Alrouh et al. 2020). Mae'r astudiaethau meintiol hyn o famau ac achosion gofal mynych wedi adrodd y canlynol yn gyson.

- Mae cyfran sylweddol o famau'n dychwelyd i'r llys yn dilyn achos cyntaf (mynegai). Ar sail cyfanswm nifer y mamau sy'n dychwelyd, amcangyfrifir fod risg y bydd o leiaf un o bob pedair menyw'n dychwelyd o fewn saith mlynedd.¹⁵
- Mae risg mynychder fwyaf yn y tair blynedd gyntaf sy'n dilyn achos mynegai. Mae'r gofod cyfartalog rhwng achosion gofal yn llai na dwy flynedd.

oherwydd byddai hynny'n golygu bod yr achos gwreiddiol yn mynd heibio i'r targed 26 wythnos.

¹⁴ Re B (Achosion Gofal: Apêl) [2013] UKSC 33, [2013] 2 FLR 1075 ac Re B-S (Mabwysiadu: Cymhwyso a 47(5)) [2013] EWCA Civ 1146, [2014] 1 FLR 1035.

¹⁵ Roedd yr amcangyfrif cyntaf o famau sy'n dychwelyd yn cynnwys pob achos o famau sy'n dychwelyd, p'un a oedd menywod yn dychwelyd i'r llys gyda phlentyn newydd neu'r un plentyn. Mae'r dadansoddiadau yn yr adroddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng mamau; er, bydd mwyafrif helaeth yr achosion mynych yn cynnwys plentyn nad yw'r llys wedi'i weld o'r blaen (baban newydd, yn nodweddiadol).

- Mae mwyafrif yr episodau cyntaf a ailadroddir o achosion gofal, a'r ail episodau a ailadroddir, yn ymwneud â babanod sy'n llai na mis oed.¹⁶
- Mae mamau sy'n profi achosion gofal mynych yn dod yn famau am y tro cyntaf yn iau o lawer na'r boblogaeth yn gyffredinol.

Mae ymchwil ansoddol gyfoethog, gan gynnwys astudiaethau gwerthuso, wedi'i chyhoeddi'n genedlaethol ac yn rhyngwladol hefyd, yn canolbwyntio ar famau ac achosion gofal mynych, yn ogystal â chymryd babanod ymaith adeg genedigaeth (Taplin and Mattick 2015; Broadhurst and Mason 2020; Boddy et al. 2020; Mason and Wilkinson 2021; Cox et al. 2017, 2020, 2021). Ysgogodd yr astudiaethau gwreiddiol ar ofal mynych (Broadhurst et al. 2015, 2017) y gyfres *Born into Care* (Broadhurst et al. 2018; Alrouh et al. 2020; Griffiths et al. 2020), o ystyried nifer uchel yr achosion gofal a gyhoeddir ar gyfer babanod gerllaw genedigaeth, pan fydd hanes o gymryd plant oddi ar y fam. Mae'r gyfres *Born into Care* hefyd wedi cynnwys ymchwil ansoddol. Mae'r corff llenyddiaeth hwn wedi adrodd y canlynol yn gyson.

- Mae argyfwng ar ôl cymryd plentyn yn mwyhau risg defnyddio cyffuriau ac alcohol. Hefyd, gall ysgogi neu waethygu cyflyrau iechyd meddwl fel iselder, gorbryder a meddwl am gyflawni hunanladdiad (Crawford et al. 2009; Broadhurst and Mason 2020).
- Nid yw ymdeimlad menywod o gysylltiad â'u plant yn dod i ben ar ôl cymryd plentyn, yn hytrach, mae menywod yn arddel eu bod yn famau – er eu bod yn byw ar wahân i'w plant (Boddy et al. 2020; Morriss 2018).
- Mae menywod yn llwyr ymwybodol o stigma cymryd plant oddi arnynt ac, yn nodweddiadol, prin yw eu cyfle i ymddiried ym mhobl eraill sydd wedi cael yr un profiad, neu geisio cysur ganddynt (Taplin and Mattick 2015; Morriss 2018; Broadhurst and Mason 2020).
- Mae galar yn aciwt ac yn oesol ar ôl i blentyn gael ei gymryd, ac mae mamau, partneriaid a'r rhwydweithiau teuluol ehangach yn ei deimlo (Boddy et al. 2020).
- Mae menywod yn cwyno'n gyson nad ydynt yn gallu cael at wasanaethau iechyd meddwl priodol (Broadhurst et al. 2017).
- Mae ffactorau risg eraill sy'n croestorri yn effeithio ar lawer o famau â risg, fel ymyleiddio, hanes o gamdriniaeth yn ystod plentyndod, tlodi a mwy o debygolrwydd eu bod wedi treulio amser mewn gofal eu hunain, gan waethygu poen cymryd plentyn oddi ar y fam (Broadhurst et al. 2017; Harwin et al. 2018; Boddy et al. 2020; Cusworth et al. 2022).

¹⁶ Adroddodd Broadhurst et al. (2015) fod dros 70% o achosion cyntaf a ailadroddir yn ymwneud â baban o dan flwydd oed, a bod 60% ohonynt yn ymwneud â baban newydd-anedig.

- Mae cymryd baban oddi ar y fam adeg genedigaeth yn arbennig o drawmatig ac mae menywod o'r farn bod eu hawliau cyfreithiol yn cael eu torri'n sylfaenol pan fydd yn ofynnol iddynt fynd i'r llys yn y cyfnod yn syth ar ôl genedigaeth (Broadhurst et al. 2022).

Mae un astudiaeth fawr ar dadau mewn achosion gofal mynych wedi'i chwblhau hefyd, sy'n darganfod gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y rhywiau yn y patrwm ailadrodd i famau a thadau (Philip et al. 2021). Yn benodol, er bod tadau hefyd yn cael profiad o achosion gofal mynych, mae'r rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â mamau sengl neu famau â phartner newydd. Mae tadau'n fwy tebygol o ymddangos mewn achosion gofal sy'n ymwneud â phlentyn y mae'r llys wedi'i weld o'r blaen, er enghraifft pan fydd ailuno â'r plentyn wedi torri i lawr (Bedston et al. 2019). Yn anaml iawn y mae tadau sengl yn ymddangos mewn achosion gofal mynych (Bedston et al. 2019).

Ar y cyfan, mae'r ymchwil a gyhoeddwyd yn cynnig cipolygon pwysig i gyffredinrwydd achosion gofal mynych yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â phrofiad y teulu.

Datblygiadau i wasanaethau

Yng Nghymru a Lloegr, prin fu'r llwybrau cymorth i rieni yn hanesyddol yn sgil cymryd eu plant oddi arnynt trwy achosion gofal. Heblaw am gwnsela byrdymor i rieni y mabwysiadwyd eu plant (Neil et al. 2010), nid oes mandad deddfwriaethol ffurfiol ar wasanaethau yng Nghymru na Lloegr i ddarparu cymorth i adsefydlu'r rhieni eu hunain – hyd yn oed os yw'r llysoedd wedi argymhell hynny yn ystod achosion gofal (Cox et al. 2012; Broadhurst et al. 2017). Mae'r un diffygion mewn gwasanaethau i'w gweld mewn nifer o gyd-destunau rhyngwladol sydd â systemau amddiffyn plant tebyg, fel Unol Daleithiau America, Canada, Awstralia a Seland Newydd (Grant et al. 2011, 2014; Taplin and Mattick 2015; Wise 2021). Fodd bynnag, mae darganfod ailadrodd yn ystadegol, ynghyd ag egni ac ymroddiad arloeswyr ymarfer, wedi newid cwrs hanes o esgeuluso anghenion cymorth ac adsefydlu rhieni ar ôl cymryd eu plentyn oddi arnynt, er bod cymaint yn fwy y mae angen ei wneud.

Datblygwyd mentrau ymarfer newydd niferus i helpu rhieni osgoi achosion gofal mynych. Mae gwasanaethau newydd yn gweithio gyda rhieni ar ôl cymryd eu plentyn oddi arnynt, neu yn ystod beichiogrwydd dilynol (Cox et al. 2017, 2020, 2021; Roberts et al. 2018; Boddy et al. 2020). Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n canolbwyntio ar fenywod, neu ar fenywod a'u partneriaid, ac nid ydynt yn gweithio gyda thadau ar eu pen eu hunain. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig cymorth dwys, wedi'i deilwra, dros gyfnod a rhwng 18 mis a dwy flynedd. Mae adroddiad mapio a luniwyd gan Mason and Wilkinson (2021) yn dal cynnwys a dulliau llawer o wasanaethau

yn Lloegr ac mae'n ddogfen gyfeirio ddefnyddiol.¹⁷ Fel y nododd Mason and Wilkinson, nid yw datblygiadau i wasanaethau wedi'u lledaenu'n gyfartal ar draws Lloegr eto. Yn ogystal, mae llawer o wasanaethau'n cael eu datblygu'n lleol, gyda thimau bach. Er bod eu gwaith yn torri tir newydd, dim ond mymryn o'r angen y mae'n ei fodloni. Yng Nghymru yn 2018, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen Reflect – er, ni fu unrhyw ddata cyhoeddus pellach ar yr ehangu hwn eto.¹⁸

Hyd yn hyn, ni fu llawer o ddadansoddi'r ffactorau sy'n gysylltiedig â risg rhieni o achosion gofal mynych. Yn hytrach, mae atgyfeiriadau i wasanaethau pwrpasol yn seiliedig i raddau helaeth ar argymhellion ymarferwyr.

Ar y cyfan, mae tystiolaeth werthusol yn dangos bod gwasanaethau'n atal rhieni rhag ymddangos mewn achosion gofal yn fwy llwyddiannus o lawer nag ymarfer gwaith cymdeithasol safonol awdurdodau lleol (Boddy et al. 2020; Cox et al. 2020, 2021; Roberts et al. 2018), gan ddangos teilyngdod cadarn dros gyflwyno gwasanaethau o'r fath yn ehangach.

Gwahaniaethu llwybrau mynych trwy achosion gofal

Ers llunio'r amcangyfrif cyntaf o achosion gofal mynych yn 2015 (Broadhurst et al. 2015), mae gwybodaeth am batrymau mynychder wedi esblygu. Mae dau fath o lwybrau mynych yn cael eu cydnabod bellach mewn polisi ac ymarfer (Ffigur 1).


- Mae Llwybr 1 yn ymwneud â mwyafrif helaeth y mamau ac, yn yr achosion hyn, mae mam yn dychwelyd i'r llys gydag o leiaf un plentyn newydd (baban, yn nodweddiadol), yn sgil cymryd plentyn hyn oddi arni. Y grŵp hwn o famau y disgrifir orau eu bod yn wynebu achosion mynych o gymryd eu plant oddi arnynt.
- Mae Llwybr 2 yn ymwneud â lleiafrif o famau sy'n dychwelyd i'r llys gyda phlentyn neu blant y mae'r llys wedi'u gweld o'r blaen (yr un plentyn). Yn yr achosion hyn, bydd trefniant darparu gofal wedi torri i lawr yn nodweddiadol, neu mae angen ei newid (e.e. dychwelyd i deulu estynedig neu i'r rhieni) ac mae'n ofynnol i'r llys ystyried cynllun gofal newydd i'r un plentyn.

¹⁷ Mae'r wefan hon, sy'n cael ei chynnal gan Research in Practice, yn cynnwys map sy'n dangos lleoliad gwasanaethau adeg y broses fapio:

<https://supportingparents.researchinpractice.org.uk>, mae'n cynnwys adnoddau a deunyddiau ar gyfer gwasanaethau gofal mynych ac mae'n gysylltiedig â Chymuned Ymarfer ar-lein y gwasanaethau gofal mynych.

¹⁸ Mae rhaglen Reflect yn darparu cymorth dwys, seiliedig ar berthynas, i famau i helpu sefydlogi bywyd, mae'n rhoi cymorth emosiynol i fynd i'r afael â cholled, ac mae'n annog mamau i droi at wasanaethau iechyd corfforol, emosiynol ac iechyd atgenhedlu. Gweler: Roberts et al. 2018.

Ffigur 1: Enghreifftiau eglurhaol o fathau o llwybrau mynych



Er bod parhau i fonitro cyfanswm lefel a chyfradd achosion gofal mynych yn bwysig, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng llwybrau hefyd. Mae gwahaniaethu rhwng llwybrau yn bwysig gan fod eu goblygiadau i bolisi ac ymarfer yn wahanol.

- Yn Llwybr 1, mae mwyafrif yr atebion ymarfer newydd yn canolbwyntio ar sut i helpu mamau (a'u partneriaid) i ymdopi â phoen cymryd plentyn neu blant dilynol oddi arnynt yn dilyn achosion gofal a sicrhau bod digon o gymorth dwys, o ansawdd digonol, ar gael i helpu rhieni osgoi sefyllfa lle y cymerir baban dilynol oddi arnynt. Mae cynorthwyo menywod i gael at wasanaethau iechyd atgenhedlol, corfforol ac iechyd meddwl yn ganolog i brosiectau atal. Mae llawer ohonynt yn gweithio gyda rhieni yn ystod beichiogrwydd newydd i gefnogi'r posibilrwydd y bydd y baban newydd yn aros gartref.
- Yn Llwybr 2, yr her i ymarferwyr yw sut i gefnogi trefniadau darparu gofal gwahanol i blant, neu helpu ailuno â'r plentyn, i sicrhau bod mwy o siawns i gynlluniau gofal lwyddo.

Yn ymarferol, gall llwybrau achos fod yn fwy cymhleth a gall rhiant symud rhwng llwybrau yn dilyn episod cyntaf a ailadroddir. Fodd bynnag, at ddibenion yr holl ddadansoddiadau yn yr adroddiad hwn, rydym wedi gwahaniaethu rhwng achosion â phlant blaenorol yn unig ac achosion ag o leiaf un plentyn newydd:

- mae ystadegau disgrifiadol yn llunio cymariaethau rhwng y ddau lwybr.
- defnyddir dadansoddiad goroesi i amcangyfrif risg dychwelyd pob menyw mewn achosion gofal mynych, ond mae hefyd yn amcangyfrif risg dychwelyd i fenywod yn Llwybr 1 yn unig.

Pam canolbwyntio ar famau?

Mae'r holl ddadansoddiadau ystadegol yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar y fam a'r plentyn. Mae pedwar rheswm allweddol dros y ffocws hwn.

- Mae mwyafrif y gwasanaethau ataliol newydd naill ai'n gweithio gyda mamau neu famau a'u partneriaid, ond nid ydynt yn gweithio gyda thadau ar eu pen eu hunain. Felly, mae'n fwy defnyddiol i wasanaethau ataliol os bydd amcangyfrifon newydd yn canolbwyntio ar newidiadau yn risg menywod o ddychwelyd. Nododd Mason and Wilkinson (2021) mai 5 yn unig o 75 gwasanaeth sy'n gweithio gyda thadau heb eu partner.
- Nid yw cyfran o gofnodion achosion gofal yn cynnwys tadau (mae amcangyfrifon ar gyfer Lloegr yn amrywio ac yn cynnwys amcangyfrifon am dadau coll mewn 20%–40% o achosion).¹⁹ Lle y bo cofnodion ar gael, mae defnyddio tadau fel uned ddadansoddi'n gwrthdaro â'r gofyniad i wahaniaethu rhwng tadau a phartneriaid gwrywaidd, ynghyd â 'thadau' lluosog sy'n cael eu rhestru ar achos. Felly, mae'n anodd meincnodi mynychder gan ddefnyddio tadau fel uned ddadansoddi.
- Yn wahanol i'r mwyafrif o famau, sy'n dychwelyd i'r llys oherwydd genedigaeth baban newydd, mae tadau'n fwy tebygol o ddychwelyd i'r llys mewn achos sy'n ymwneud â methiant ailuno (Llwybr 2). Prif ffocws mentrau ataliol newydd yw Llwybr 1.
- Mae amcangyfrifon blaenorol a luniwyd gan yr awduron (Broadhurst et al. 2015, 2017) wedi canolbwyntio ar famau, gan ganiatáu am gymharu â'r adroddiad presennol.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n nacáu pwysigrwydd helpu cyplau neu dadau sy'n dychwelyd mewn ymarfer. Mae gwaith Philip et al. (2020) yn rhoi cyfoeth o gipolygon i brofiadau tadau o golled, ynghyd ag argymhellion ar gyfer ymarfer, ac mae wedi herio gwasanaethau i gyfrif am dadau. Hefyd, datblygodd Bedston et al. (2019) wybodaeth trwy ddal patrwm cymhleth tadau sy'n dychwelyd, yn gysylltiedig â mamau a phlant.

¹⁹ Adroddodd Broadhurst et al. (2017) fod tadau wedi'u rhestru yn 81.2% o achosion mynegai, ond bod cyfraddau is o dadau'n cael eu henwi ar y cais gofal mewn achosion dilynol. Adroddodd Masson et al. 2008 mai dim ond mewn 63.0% o achosion yn gysylltiedig â mam yr oedd y tad wedi'i restru hefyd (ar sail pob achos gofal, hynny yw, heb wahaniaethu rhwng y math o ailadrodd).

Dulliau

Data a samplu

Y prif ffynhonnell ddata, mynediad a chlirio

Cofnodion yr oedd Cafcass [Lloegr] a Cafcass Cymru yn eu cynhyrchu fel mater o drefn rhwng 2011/12 a 2020/21 oedd y brif ffynhonnell ddata ar gyfer yr adroddiad hwn. Cafwyd mynediad at y cofnodion trwy Fanc Data SAIL [Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw] ym Mhrifysgol Abertawe (Ford et al. 2009; Johnson et al. 2020). Mae Banc Data SAIL yn amgylchedd ymchwil diogel, dibynadwy, sy'n cynnig mynediad i ymchwilwyr at gofnodion dienw ar lefel unigolyn, ar raddfa'r boblogaeth, ac mae'n galluogi i ddata gael ei gysylltu'n gywir. Mae'r holl gynigion ymchwil sy'n defnyddio SAIL yn destun cymeradwyaeth y Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (SAIL IGRP 0929).

Ailstrwythuro data

Uned ddadansoddi

Y fam yw'r uned ddadansoddi. Cafodd y data ei ailstrwythuro trwy gysylltu pob mam â phob un o'i cheisiadau gofal a goruchwyliaeth o dan a.31, ac yna cysylltu plant â chofnodion eu mam (gweler Atodiad A am fanylion pellach).

Pennu'r episod mynegai

Yn Lloegr, bu'n bosibl adolygu cofnodion rhwng 2007 a 2011/12, a thynnu mamau a ymddangosodd mewn achosion gofal cyn 2011/12. O gofio bod y rhan fwyaf o famau sy'n cofnodi episod a ailadroddir yn gwneud hynny o fewn tair blynedd, gallwn fod yn hyderus mai ymddangosiad mynegai'r fam yn y rhan fwyaf o achosion yn Lloegr yw ei hymddangosiad cyntaf. Yng Nghymru fodd bynnag, ni fu'n bosibl cynnal yr un math o wiriad gan mai prin yw'r data sydd ar gael cyn 2011/12. Felly, rydym wedi cadw iaith ymddangosiad 'mynegai' i ddynodi'r ymddangosiad cyntaf yn y setiau data.

Rhesymoli data gorchmynion cyfreithiol²⁰

Gall cyfuniadau lluosog o orchmynion cyfreithiol ddeillio o ddiwedd achosion gofal. Yn unol ag astudiaethau blaenorol gan y tîm (Broadhurst et

²⁰ Nid yw Cafcass a Cafcass Cymru yn cofnodi data lleoli plant, felly rydym wedi dod i gasgliad ynghylch y canlyniadau parhaol mwyaf tebygol ar sail y gorchmynion cyfreithiol. I ennill darlun mwy cywir o leoliadau terfynol plant, byddai angen cysylltu data Cafcass â

al. 2015, 2017), rydym wedi grwpio gorchmynion cyfreithiol a chyfuniadau yn y pedwar categori canlynol:

- gyda rhieni
- gyda theulu a ffrindiau
- mewn gofal
- gosod i'w mabwysiadu.

Mae manylion pellach am resymoli data gorchmynion cyfreithiol i'w gweld yn Atodiad A.


Samplau terfynol

Cyflawnom ein dadansoddiadau ar ddau sampl, a ddangosir yn Ffigur 2.

- Fe wnaeth y sampl cyntaf gynnwys pob mam ag o leiaf un set o achosion wedi'i chofnodi ar ei chyfer o dan a.31 Deddf Plant 1989 rhwng 2011/12 a 2020/21. Cafodd y data ei haenu yn ôl Llwybr 1 a Llwybr 2. Mae'r sampl llawn yn cynnwys 96,457 o famau yn gyfan gwbl (90,820 o famau yn Lloegr a 5,637 o famau yng Nghymru).
- Cyfyngwyd yr ail sampl i achosion a.31 rhwng 2011/12 a 2019/20, fel bod pob mam yn cael ei dilyn i fyny am o leiaf flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu i'r rhan fwyaf o achosion ddod i ben erbyn diwedd y ffenestr arsylwi, ac i'w canlyniadau cyfreithiol gael eu cofnodi. Fe wnaeth y sampl cyfyngedig gynnwys 87,083 o famau yn gyfan gwbl (82,051 o famau yn Lloegr a 5,032 o famau yng Nghymru).

chofnodion plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn ymdrechu i wella ansawdd y cysylltiadau ar gyfer data Cymru yn hyn o beth ac i gaffael data tebyg ar gyfer Lloegr.

Ffigur 2: Dewis y sampl



Sylwer: At ddiben y dadansoddiadau goresi, ailddosbarthom famau Llwybr 2 yn famau 'heb ddychwelyd'. Mae Sampl 2 yn seiliedig ar ffenestr arsylwi fyrrach na Sampl 1, sy'n caniatáu am ddilyn i fyny am flwyddyn o leiaf yn y dadansoddiadau goresi. Mae'r holl ddadansoddiadau disgrifiadol wedi'u seilio ar Sampl 1, ac mae'r holl ddadansoddiadau goresi wedi'u seilio ar Sampl 2.

Mae'r strategaeth ddadansoddiadol wedi cynnwys cynhyrchu ystadegau disgrifiadol, a modelu ystadegol gan ddefnyddio dadansoddiad goresi, i amcangyfrif risg mam o ddychwelyd i'r llys. Lluniwyd plotiau twndis i graffu ar yr amrywiad rhwng rhanbarthau Lloegr a Chymru. Hefyd, defnyddiwyd plotiau twndis i graffu ar yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn Lloegr, ac ar wahân yng Nghymru. Ym mhob dadansoddiad, defnyddiwn werth-p o 0.05 yn drothwy ar gyfer arwyddocâd ystadegol.

Darperir trosolwg cyflawn o niferoedd a chanrannau crai y mamau mewn achosion a.31 mynegai ac achosion a ailadroddir rhwng 2011/12 a 2020/21 yn Tabl 1. Mae'r rhain yn cynnwys mamau nad ydynt yn ddychwelyd i'r llys o fewn ein ffenestr arsylwi ('heb ddychwelyd'),²¹ mamau sy'n ddychwelyd ag o leiaf un plentyn newydd (Llwybr 1) a mamau sy'n ddychwelyd â phlentyn blaenorol yn unig (Llwybr 2). Nodom 90,820 a 5,637

²¹ Gallai'r rheiny gynnwys mamau sydd heb gael cyfle i ddychwelyd i'r llys eto (h.y. achosion diweddar).

o famau mewn achosion a.31 yn Lloegr a Chymru, yn y drefn honno. O'r rhain, nodwyd 17,205 a 920 o famau yn yr achosion cyntaf a ailadroddir.²² Cafodd cyfanswm o 112,781 o geisiadau a.31 yn Lloegr a 6,753 yng Nghymru eu dal yn ystod ein ffenestr arsylwi.

Darparodd ymchwil flaenorol i achosion gofal mynych yn Lloegr a Chymru (Broadhurst et al. 2017; Alrouh et al. 2020) drosolwg o nifer a chanran y mamau sy'n dychwelyd. Yn yr astudiaeth hon, mae nifer y mamau mewn achosion a.31 a ailadroddir wedi cynyddu oherwydd y ffenestr arsylwi hwy a'r cynnydd cyffredinol yn nifer yr achosion gofal gydag amser. Serch y ffaith bod niferoedd crai yn tanamcangyfrif y broblem, mae'r pwynt hwn yn bwysig i gynllunwyr gwasanaethau.²³

Tabl 1: Niferoedd crai y mamau mewn achosion a.31 a ailadroddir yn Lloegr a Chymru rhwng 2011/12 a 2020/21

| | Lloegr | Cymru |
|--------------------------------------|---------|-------|
| Cyfanswm nifer y mamau | 90,820 | 5,637 |
| Cyfanswm nifer y ceisiadau | 112,781 | 6,753 |
| Nifer y mamau fesul episod | | |
| Episod mynegai | 90,820 | 5,637 |
| Episod cyntaf a ailadroddir | 17,205 | 920 |
| Ail episod a ailadroddir | 3,707 | 144 |
| Trydydd episod a ailadroddir | 826 | 41 |
| Pedwerydd episod a mwy a ailadroddir | 223 | 11 |

Cyfyngiadau

Mae data dibynadwy wedi bod ar gael gan Cafcass [Lloegr] er 2007. Mae hyn yn golygu bod y tîm ymchwil wedi gallu adolygu a thynnu cofnodion ar gyfer mamau yr oedd dyddiad eu hymddangosiad mynegai cyn ein ffenestr arsylwi (h.y. cofnodwyd ymddangosiad mynegai'r fam rhwng 2007/8 a 2010/11). O gofio bod y risg dychwelyd ar ei huchaf o fewn tair blynedd, gallwn fod yn weddol hyderus bod mwyafrif y mamau sydd wedi'u cynnwys yn ein sampl wedi cofnodi eu hymddangosiad mynegai (cyntaf) yn 2011/12. Yng Nghymru fodd bynnag, gan nad oes hanes mor hir i ddata a gynhyrchir fel mater o drefn, rydym yn llai sicr mai ymddangosiad

²² Ar sail 10 mlynedd o ddata, mae ystadegau disgrifiadol ynghylch ailadroddiadau mynych yn llai dibynadwy o lawer, gan nad yw'r ffenestr arsylwi yn ddigon hir i ddal nifer neu gyfran yr ailadroddiadau lluosog i famau sy'n ymddangos yn fwy diweddar yn y set ddata.

²³ Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod mamau yn ein sampl yn cael eu harsylwi am gyfnodau amrywiol. Mae'n golygu nad yw rhai mamau sy'n ymuno â'r set ddata tua diwedd y cyfnod arsylwi efallai wedi cael eu dilyn yn ddigon hir i bennu a ydynt yn dychwelyd am set ddilynol o achosion gofal. Defnyddir dull mwy trylwyr yn ystadegol i gyfrifo risg mam o ddychwelyd i'r llys teulu gan ddefnyddio Sampl 2 (gweler: 'Modelu graddfa a phatrwm yr ailddigwydd').

mynegai'r fam yw ei hymddangosiad cyntaf mewn gwirionedd. Gydag amser, bydd modd delio â phroblem blaendoriad chwith data Cymru a diwygio amcangyfrifon.

Fel yr esbonnir yng nghorff yr adroddiad, nid ydym yn gallu defnyddio data ar ethnigrwydd nac anabledd eto i graffu ar fynychder oherwydd, eto, nid oes gennym ddata dros gyfnod ddigon hir. Trwy gysylltu data ag amrywiaeth o ddata iechyd, addysg a demograffig arall, bydd yn bosibl deall ffactorau sy'n gysylltiedig â risg ailadrodd yn llawnach. Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Hefyd, er ein bod wedi canolbwyntio ar achosion llys teulu ffurfiol, mae'n bwysig nodi bod plant yng Nghymru a Lloegr yn gallu cael eu rhoi mewn gofal yn wirfoddol, yn Lloegr o dan a.20 Deddf Plant 1989 ac yng Nghymru o dan a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Pe baem ni wedi ehangu ein ffocws y tu hwnt i achosion cyfreithiol ffurfiol, yn ddiaw, byddem wedi dal darlun gwahanol o famau mewn achosion mynych o golli eu plant i ofal y tu allan i'r cartref.

Canfyddiadau

Gwahaniaethu mamau mewn achosion mynych: proffil disgrifiadol o famau a phlant yn Llwybrau 1 a 2

Wrth i'n gwybodaeth am achosion gofal mynych esblygu, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng mamau sy'n dychwelyd i'r llys oherwydd ystyrir bod risg niwed sylweddol i blentyn newydd (baban newydd, yn nodweddiadol) (Llwybr 1), a'r rhai sy'n dychwelyd i'r llys oherwydd bod trefniant gofal i blentyn wedi chwalu (Llwybr 2). Yn yr adran hon, cyflwynwn yr ystadegau disgrifiadol ar gyfer menywod sy'n dychwelyd i'r llys yng Nghymru a Lloegr ar y sail hon, rhwng 2011/12 a 2020/21. Rydym yn canolbwyntio ar wybodaeth o achosion mynegai ac achosion cyntaf a ailadroddir, oherwydd nifer bach iawn o fenywod yn Llwybr 2 y bydd ail achos a ailadroddir wedi'i gofnodi ar eu cyfer.

Mae'r holl newidynnau a'u hamlderau a'u canrannau ar gyfer mamau Llwybr 1 a Llwybr 2 yn cael eu dangos yn Tabl B.1 (Lloegr) a Tabl B.2 (Cymru) yn Atodiad B. Mae mamau nad ydynt yn dychwelyd i'r llys o fewn ein ffenestr arsylwi wedi'u cynnwys hefyd er gwybodaeth, ond ni chânt eu trafod isod.

Cyfanswm nifer y mamau yn Llwybrau 1 a 2

Yn Lloegr, cafodd 73,615 o famau un set yn unig o achosion gofal a.31, dychwelodd 12,772 (14.1%) ag o leiaf un plentyn newydd (Llwybr 1) a dychwelodd 4,433 (4.9%) â phlentyn blaenorol (Llwybr 2).

Yng Nghymru, cafodd y rhan fwyaf o famau (4,717) un set yn unig o achosion gofal a.31, dychwelodd 777 (13.8%) ag o leiaf un plentyn newydd (Llwybr 1), a dychwelodd 143 (2.5%) gyda phlentyn blaenorol (Llwybr 2).

Felly, mae mwyafrif helaeth y mamau mewn achosion mynych yn dychwelyd i'r llys gyda phlentyn newydd nad yw'r llys wedi'i weld o'r blaen. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd ag ymchwil flaenorol (Broadhurst et al. 2015).

Amcangyfrif oedran mamau adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf

Gan gymharu oedran menywod pan fyddant yn dod yn fam am y tro cyntaf (Ffigur 3),²⁴ rydym yn darganfod bod menywod sy'n dychwelyd i'r llys gyda phlentyn newydd (baban, yn nodweddiadol) yn Llwybr 1 wedi cael eu plentyn cyntaf yn iau na mamau yn Llwybr 2, sy'n dychwelyd gyda phlentyn a fu'n destun achos gofal blaenorol. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd ag ymchwil feintiol ac ansoddol blaenorol, a ddarganfu fod dod yn fam yn ifanc yn gysylltiedig â risg ymddangosiadau mynych mewn achosion gofal (Broadhurst et al. 2015, 2017; Boddy et al. 2020).

Fodd bynnag, mae Llwybr 2 hefyd yn cynnwys llawr o famau ifanc. Mae canfyddiadau i'r ddau lwybr yn adlewyrchu'r ffaith bod mamau sy'n ymddangos mewn achosion gofal, ar y cyfan, yn tueddu i ddod yn fam am y tro cyntaf yn iau na mamau yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Amcangyfrifwn yn Lloegr, fod:

- 17.9% o famau yn Llwybr 1 yn famau tro cyntaf pan oeddent rhwng 14 ac 17 oed
- 15.2% o famau yn Llwybr 2 yn famau tro cyntaf pan oeddent rhwng 14 ac 17 oed
- 23.9% o famau yn Llwybr 1 yn famau tro cyntaf pan oeddent rhwng 18 ac 19 oed
- 18.2% o famau yn Llwybr 2 yn famau tro cyntaf pan oeddent rhwng 18 ac 19 oed.

Yng Nghymru, mae'r darlun yn debyg:


- roedd 17.9% o famau yn Llwybr 1 yn famau tro cyntaf pan oeddent rhwng 14 ac 17 oed
- roedd 12.6% o famau yn Llwybr 2 yn famau tro cyntaf pan oeddent rhwng 14 ac 17 oed
- roedd 23.8% o famau yn Llwybr 1 yn famau tro cyntaf pan oeddent rhwng 18 ac 19 oed
- roedd 21.0% o famau yn Llwybr 2 yn famau tro cyntaf pan oeddent rhwng 18 ac 19 oed.

Ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr, roedd oedran cymedrig y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf yn amrywio o 29.7 oed yn 2011 i 30.7 oed yn 2020 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2020). Felly, mae mamau mewn achosion gofal yn iau o lawer nag yn y boblogaeth yn gyffredinol. Yng Nghymru a Lloegr, rydym yn amcangyfrif bod 41.8% i

²⁴ Cymerir oedran y fam adeg mamolaeth o oedran y fam ac oedran ei phlentyn hynaf mewn achos cyntaf. Hynny yw, rydym yn cymryd yn ganiataol mai plentyn hynaf y fam yw ei phlentyn cyntaf yna rydym yn dod i gasgliad am oedran y fam pan ddaeth yn fam am y tro cyntaf ar y sail honno. Amcangyfrif yw hwn. Gellir cael darlun mwy cywir trwy gysylltu data mamolaeth neu ddata cyfnod mewn ysbyty – pan fydd y data hwn yn rhychwantu digon o flynyddoedd. Ar hyn o bryd, trwy ddwyn gwybodaeth o astudiaethau ansoddol ynghyd â'r data disgrifiadol hwn, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod dod yn fam yn ifanc yn gysylltiedig ag ailadrodd.

famau yn Llwybr 1 rhwng 14 ac 19 oed adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf.

Ffigur 3: Amcangyfrif o oedran menywod pan ddaethant yn fam am y tro cyntaf



Oedran y plentyn ieuengaf adeg yr achos cyntaf a ailadroddir


Yn Lloegr, roedd mwyafrif helaeth (83.3%) yr achosion cyntaf a ailadroddir gydag o leiaf un plentyn newydd (Llwybr 1) yn ymwneud â babanod 11 mis oed ac iau, roedd 11.8% yn ymwneud â phlant 1 i 9 oed, a dim ond 4.3% a oedd yn ymwneud â phlant 10 oed a hŷn (Ffigur 4). Gan ganolbwyntio ar achosion cyntaf a ailadroddir yn ymwneud â phlentyn neu blant y mae'r llys wedi'u gweld yn flaenorol (Llwybr 2), dim ond 12.7% a oedd yn ymwneud â phlant 11 mis ac iau; roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â phlant 1 i 9 oed (64.0%) ac roedd 23.2% ohonynt yn ymwneud â phlant 10 oed a hŷn.

Gwelir patrwm tebyg yng Nghymru. Roedd y rhan fwyaf o achosion cyntaf a ailadroddir gydag o leiaf un plentyn newydd (Llwybr 1) yn ymwneud â babanod 11 mis oed ac iau (84.1%), roedd 10.8% yn ymwneud â phlant 1 i 9 oed, ac roedd 4.3% yn ymwneud â phlant 10 oed a hŷn. Eto, o ran Llwybr 2, mae'r darlun yn wahanol iawn, gyda lleiafrif yn unig o achosion yn ymwneud â babanod.

Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd ag ymchwil flaenorol. Trwy wahaniaethu'r llwybrau, mae'n bosibl nodi'n gliriach y nifer uchel iawn o episodau cyntaf a ailadroddir sy'n ymwneud â babanod yn Llwybr 1 – gyda'r gyfran fwyaf yn ymwneud â babanod ym mis cyntaf eu bywyd.²⁵

²⁵ Mae canfyddiadau blaenorol o Broadhurst et al. 2015, yn gyson ar y cyfan.


Ffigur 4: Oedran y plentyn ieuengaf



Sylwer: Mae canrannau'n seiliedig ar yr episod cyntaf a ailadroddir ar gyfer mamau Llwybr 1 a Llwybr 2 yn Lloegr a Chymru. Ar gyfer mamau Llwybr 2 yng Nghymru, unwyd y categori < 1 mis â'r categori 1 – 11 mis, ac unwyd y categori 10 – 15 oed â'r categorïau 16+ ac Annilys.

Nifer y plant

O ran nifer y plant (Ffigur 5), un plentyn sy'n destun y rhan fwyaf o achosion yn Lloegr yn y ddau fath o lwybr a ailadroddir; 86.9% (Llwyr 1) a 64.4% (Llwyr 2) adeg episod cyntaf y fam a ailadroddir. Yng Nghymru, un plentyn sy'n destun 90.2% (Llwyr 1) a 69.9% (Llwyr 2) o'r achosion cyntaf a ailadroddir. Eto, nid yw'r canfyddiadau'n annisgwyl ar gyfer Llwybr 1 ac, o ran Llwybr 2, ymddengys fod mwy o achosion nag yn Llwybr 1 yn ymwneud â grwpiau brodyr a chwiorydd.

Ffigur 5: Nifer y plant

Sylwer: Mae'r canrannau'n seiliedig ar yr episod cyntaf a ailadroddir ar gyfer mamau Llwybr 1 a Llwybr 2 yn Lloegr a Chymru.

Gorchmynion cyfreithiol

Mae gwahaniaethau clir ym mhatrwm canlyniadau'r gorchmynion cyfreithiol i blant yn Llwybr 1 ac yn Llwybr 2 (Ffigur 6). Pan fydd mamau yn Llwybr 1 yn dychwelyd i'r llys gyda phlentyn newydd (y gwyddom eu bod yn ymwneud â babanod yn y rhan fwyaf o achosion), mae cyfran uchel o achosion cyntaf a ailadroddir (38.6%) yn Lloegr yn arwain at orchmynion lleoli i blant, gan awgrymu cynllun i'w mabwysiadu. Ychydig iawn o blant fydd yn destun gorchmynion goruchwylio pwrpasol, a wneir yn nodweddiadol pan ddychwelir plant i ofal eu rhieni. Mae patrwm y gorchmynion cyfreithiol yn Llwybr 1 yn Lloegr fel a ganlyn:

- mae 38.6% o blant yn destun gorchmynion lleoli (cynllun i'w mabwysiadu)
- mae 20.6% o blant yn destun gorchmynion gofal llawn (mewn gofal)
- mae 22.3% o blant yn destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig neu orchmynion trefniadau plant (gyda'r rhwydwaith teulu a ffrindiau ehangach)
- mae 12.7% o blant yn destun gorchmynion gwarcheidiaeth neu 'orchymyn dim gorchymyn' (gyda rhieni)
- rhoddir 2.6% yn y categori 'Arall'.

Gan ganolbwyntio ar ganlyniadau gorchmynion cyfreithiol i blant yn Llwybr 2, rydym yn canfod nad oedd y rhan fwyaf o blant yn destun gorchmynion terfynol sy'n awgrymu atal hawliau rhieni yn barhaol – hynny yw, dim ond 12.1% o blant oedd yn destun gorchymyn lleoli. Yn hytrach, roedd mwyafrif helaeth y plant yn destun gorchymyn gofal (38.8% yn yr episod cyntaf a ailadroddir) neu'n cael eu lleoli gyda ffrindiau a theulu (20.1% yn yr episod

cyntaf a ailadroddir) neu gyda rhieni (13.5%). Felly, rydym yn gweld darlun gwahanol iawn yng nghanlyniadau'r gorchmynion cyfreithiol terfynol o gymharu â Llwybr 1 o safbwynt y rhaniad rhwng cynlluniau mabwysiadu a dychwelyd adref i deulu neu rieni. Mae patrwm y gorchmynion cyfreithiol yn Llwybr 2 yn Lloegr fel a ganlyn:

- mae 38.8% o blant yn destun gorchmynion gofal (mewn gofal)
- mae 20.1% blant yn destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig neu orchmynion trefniadau plant (gyda theulu a ffrindiau)
- mae 13.5% o blant yn destun gorchmynion gwarcheidiaeth/gorchymyn dim gorchymyn (gyda rhieni)
- rhoddir 12.4% yn y categori 'Arall'²⁶
- mae 12.1% o blant yn destun gorchmynion lleoli (cynllun i'w mabwysiadu).

Mewn adroddiadau blaenorol, trafodom y newid yn y defnydd ar orchmynion gofal ar gyfer babanod yng Nghymru, a nodom fod mwy a mwy o fabanod yn destun gorchmynion gofal ar ddiwedd achosion gofal yng Nghymru. Mae ymarferwyr wedi rhannu gyda ni mai gofal maeth gan berthynas sy'n cael ei ffafrio, i'r gwrthwyneb i Loegr, gyda'r plentyn yn cael ei roi o dan orchymyn gofal (yn hytrach na gwarcheidiaeth arbennig). Yn yr un modd, gall llawer o fabanod gael eu lleoli gartref gyda gorchmynion gofal, yn hytrach na gorchmynion goruchwylio.²⁷ Mae patrwm y defnydd hwn ar orchmynion cyfreithiol yn ei gwneud hi'n fwy anodd o lawer dod i gasgliad ynghylch ble mae plentyn yn byw.

Mae patrwm y gorchmynion cyfreithiol yn Llwybr 1 yng Nghymru fel a ganlyn:

- roedd 53.4% o blant yn destun gorchymyn gofal (mewn gofal, gan gynnwys mewn gofal gartref gyda rhieni neu gyda pherthynas)
- mae 26.1% o blant yn destun gorchmynion lleoli (cynllun i'w mabwysiadu)
- mae 6.8% o blant yn destun gorchmynion teulu
- rhoddir 2.9% yn y categori 'Arall'
- mae 2.6% yn destun gorchmynion goruchwylio (gyda rhieni).

Mae patrwm y gorchmynion cyfreithiol yn Llwybr 2 yng Nghymru fel a ganlyn:

- roedd 58.7% o blant yn destun gorchymyn gofal
- roedd 10.5% yn destun gorchmynion teulu
- rhoddwyd 9.8% yn y categori 'Arall'
- roedd 8.4% yn destun cynllun i'w mabwysiadu


²⁶ Mae'r rhain yn cynnwys pob math arall o orchymyn cyfreithiol a gofnodwyd. Er enghraifft, gorchmynion amddiffyn brys, gorchmynion trefniadau plant (treulio amser gyda nhw), a gorchmynion cyfrifoldeb rhiant.

²⁷ Defnyddir gorchmynion gofal yn Lloegr hefyd, lle caiff plant eu hanfon gartref. Yr unig ffordd o gael darlun mwy cywir o leoliad gwirioneddol y plentyn yw cysylltu data Cafcass a data plant sy'n derbyn gofal.

- roedd 5.0% yn destun gorchmynion goruchwyllo neu ddim gorchymyn (gyda rhieni).

Mae Banc Data SAIL wedi caffael data ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd y cysylltiad â data Cafcass. Mae'r cysylltiad hwn yn hanfodol, er mwyn cael mwy o gywirdeb ac eglurdeb ynghylch canlyniadau lleoli a chanlyniadau'r gorchmynion cyfreithiol i blant mewn achosion gofal yng Nghymru.

Ffigur 6: Canlyniadau gorchmynion cyfreithiol



Sylwer: Mae'r canrannau'n seiliedig ar yr episod cyntaf a ailadroddir ar gyfer mamau Llwybr 1 a Llwybr 2 yn Lloegr a Chymru.

Mamau Llwybrau 1: Canfyddiadau disgrifiadol pellach


Ar sail y wybodaeth sydd ar gael yn nata Cafcass a Cafcass Cymru, mae'n bosibl cynnig cipolygon disgrifiadol pellach sy'n berthnasol i Lwybr 1.

Rydym yn archwilio newidiadau dros gyfnod yng ngoleuni newidiadau allweddol i ddeddfwriaeth, polisi ac ymarfer yn Lloegr, cyn ac ar ôl 2014. Mae newidiadau dros gyfnod o ran achosion sy'n gorgyffwrdd neu achosion sy'n cael eu cyfuno, sy'n digwydd yn nodweddiadol gan fod baban newydd wedi'i eni yn ystod achos sy'n ymwneud â brawd/chwaer hŷn, yn haeddu cael eu harchwilio. O ystyried cyfraddau uchel mabwysiadu babanod yn Llwybr 1, rydym wedi craffu hefyd ar newidiadau cyn ac ar ôl 2014, gan ein bod yn gwybod bod mabwysiadu wedi gostwng yn sylweddol yng Nghymru a Lloegr yn dilyn dyfarniadau uchel eu proffil Re B ac Re-B-S.

Symud rhwng awdurdodau lleol (matau)

Mae rhywfaint o bryder bod menywod â hanes o achosion gofal yn symud rhwng awdurdodau lleol, gyda'r gobaith o adael eu hanes tu cefn iddynt, neu i chwilio am awdurdod lleol sy'n ymateb yn wahanol i'w hachos. Roeddem wedi gallu dal symudiadau mamau rhwng awdurdodau lleol mewn achosion cyntaf a ailadroddir o gymharu â'r episod mynegai ym mhob rhanbarth (Ffigur 7). Roedd mwyafrif helaeth yr achosion cyntaf a ailadroddir (Llwybr 1) yn yr un awdurdod lleol â'r achos mynegai yn Lloegr (83%) ac yng Nghymru (87%). Mae hyn yn awgrymu bod canran sylweddol o famau sy'n ymwneud ag achosion gofal a ailadroddir yn annhebygol o fod wedi symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol.²⁸

Ffigur 7: Symud rhwng awdurdodau lleol



A yw nifer yr achosion sy'n gorgyffwrdd neu sy'n cael eu cyfuno yn lleihau?

Mewn dadansoddiadau blaenorol seiliedig ar ddata hŷn (Broadhurst et al. 2015), nodom gyfran sylweddol o achosion gofal mynych lle'r oedd achosion newydd yn dechrau cyn bod achos cyntaf wedi dod i ben (yn nodweddiadol, mae'r fam yn geni baban newydd cyn bod achos ynghylch plentyn hŷn wedi dod i ben). O ystyried y newidiadau yn hyd achosion gofal er 2013/14, rydym wedi archwilio p'un a ydym ni'n gweld cyfrannau tebyg – neu lai, fel y gellid ei ragweld – o achosion sy'n gorgyffwrdd.


Gan ganolbwyntio ar famau yn Llwybr 1 yn unig, mae Ffigur 8 yn dangos canran yr achosion sy'n gorgyffwrdd cyn ac ar ôl 2014. Yn Lloegr ac yng Nghymru, yn y drefn honno, fe wnaeth 38.9% a 39.0% o achosion cyntaf a

²⁸ Fodd bynnag, gall mamau fod wedi symud tŷ o fewn ffiniau awdurdodau lleol. Bydd ymchwil ddilynol yn archwilio hyn.

ailadroddir orgyffwrdd â'r mynegai cyn 2014, o gymharu â dim ond 21.9% ac 17.1% ar ôl 2014.

Trwy gwtogi achosion i 26 wythnos, mae'n ymddangos yn llai tebygol y bydd mamau wedi geni baban newydd yn ystod achos. Hefyd, mae'n awgrymu bod llysoedd efallai'n llai tebygol o 'aros' am enedigaeth baban newydd a chynllunio ar gyfer y brawd/chwaer hŷn a newydd o fewn yr un achos cyfunol.

Ffigur 8: Canran yr episodau o achosion gofal sy'n gorgyffwrdd cyn ac ar ôl 2014



Nodyn technegol

Cafodd gwahaniaethau deunewidyn ystadegol bwysig rhwng grwpiau eu hasesu gan ddefnyddio prawf sgwâr-chi (χ^2). Mae'r canlyniadau'n dangos gwahaniaethau sylweddol yng nghyfran yr achosion sy'n gorgyffwrdd cyn ac ar ôl 2014 yn Lloegr ($\chi^2= 672.2$, $p < .001$) ac yng Nghymru ($\chi^2= 44.2$, $p < .001$). Gweler Tabl B.3 yn Atodiad B.


A yw nifer y babanod a phlant sy'n destun cynlluniau mabwysiadu yn gostwng ar ôl 2014?

Mae Ffigur 9 yn dangos dosbarthiad y canlyniadau cyfreithiol cyn ac ar ôl 2014 ar gyfer achosion mynegai a'r achos cyntaf a ailadroddir i famau yn Llwybr 1.

Mae'n amlwg bod mwy o fabanod a phlant, yng Nghymru a Lloegr, yn destun cynlluniau mabwysiadu mewn achos cyntaf a ailadroddir a bod hyn yr un peth ar ôl 2014. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae canran yr achosion sy'n gorffen gyda chynlluniau mabwysiadu adeg yr achos cyntaf a ailadroddir wedi gostwng yn sylweddol er 2014. Er enghraifft, cyn 2014,

roedd 45.2% a 38.5% o'r episodau cyntaf a ailadroddir yn arwain at fabwysiadu yn Lloegr a Chymru yn y drefn honno, o gymharu â dim ond 38.6% a 25.8% wedi hynny.

Ffigur 9: Gorchmynion cyfreithiol cyn ac ar ôl 2014



Nodyn technegol

Roedd y gwahaniaethau hyn yn ystadegol bwysig yn y ddau ranbarth ($\chi^2 = 711.4$, $p < .001$ [Lloegr], $\chi^2 = 177.6$, $p < .001$ [Cymru]) (gweler Tabl B.4 yn Atodiad B).

Modelu graddfa a phatrwm yr ailadrodd

Mae amcangyfrif risg menywod o ddychwelyd yn fwy dibynadwy pan ddefnyddiwn ddulliau dadansoddiad goroesi (Lemeshow et al. 2011), yn hytrach na dibynnu'n unig ar niferoedd crai y mamau. O ystyried y data sydd ar gael i'r tîm, ni fu'n bosibl dilyn pob mam i fyny am yr un cyfnod.²⁹ At hynny, efallai na fydd mamau sy'n ymddangos yn y set ddata yn y blynyddoedd diweddaraf wedi cael amser eto i ddychwelyd. Os byddwn yn cyfrif 'dychweliadau' yn unig, byddwn yn tanamcangyfrif y gyfradd ailddigwydd ym mhoblogaeth ein hastudiaeth. Mae dulliau dadansoddiad goroesi yn galluogi'r dadansoddw'r i ystyried y ddau fater hyn wrth gynhyrchu amcangyfrifon a darparu ychydig o 'gywiro'.

Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn rhannu canfyddiadau ar sail ein hamcangyfrif o risg i bob mam sy'n dychwelyd (Llwybrau 1 a 2) i alluogi darllenwyr i gymharu ein canfyddiadau newydd yn haws â'r canfyddiadau a adroddodd Broadhurst et al. 2015, 2017 ac Alrouh et al. 2020 yn flaenorol.

²⁹ Er enghraifft, gellir dilyn mamau sy'n cofnodi episod mynegai ym mlwyddyn 2011/12 i fyny am gyfnod o 10 mlynedd, ond gellir dilyn mamau sy'n cofnodi episod mynegai yn 2017/18 i fyny am dair blynedd yn unig.

Ni wnaeth astudiaethau blaenorol wahaniaethu rhwng llwybrau. Yna, byddwn yn adrodd ein hamcangyfrif o risg i famau yn Llwybr 1 yn unig i roi darlun mwy cywir o famau sy'n dychwelyd.

Yn y naill achos a'r llall, mae'r sampl dadansoddi'n cynnwys 82,051 o famau yn Lloegr a 5,032 o famau yng Nghymru rhwng 2011/12 a 2019/20.

Nodyn technegol


Defnyddiwyd amcangyfrifwr Kaplan-Meier i gyfrif y tebygolrwydd y byddai mam yn Lloegr neu Gymru yn dechrau achos cyntaf a ailadroddir ac ail achos a ailadroddir gydag (1) o leiaf un plentyn newydd neu blentyn blaenorol (matau Llwybr 1 a matâu Llwybr 2) a (2) o leiaf un plentyn newydd (matau Llwybr 1). Cafodd y cyfnod hyd at yr achos cyntaf a ailadroddir a'r ail achos a ailadroddir eu modelu gan ddefnyddio'r model hyd amser parhaus. Yn achos yr achos cyntaf a ailadroddir, cymerom fod yr amser goroesi'n dechrau ar ddyddiad cyhoeddi achos mynegai a'i fod yn para tan ddyddiad cyhoeddi'r achos cyntaf a ailadroddir neu ddiwedd ein ffenestr arsylwi. Ar gyfer yr ail achos a ailadroddir, cymerom fod yr amser goroesi'n dechrau ar ddyddiad cyhoeddi'r achos cyntaf a ailadroddir a'i fod yn para tan gyhoeddi'r ail achos a ailadroddir neu ddiwedd ein ffenestr arsylwi.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym yn dibynnu ar gynrychiolaeth weledol o amcangyfrifwr Kaplan-Meier a'r gymhariaeth ystadegol o'r cyfraddau goroesi. Defnyddir y dull hwn i amcangyfrif y tebygolrwydd o ailddigwydd heb ei addasu, sy'n golygu nad ydym yn defnyddio rheolydd ar gyfer cyd-newidynnau posibl a allai fod yn gysylltiedig â risg mam o ddychwelyd, nac yn asesu'r cyd-newidynnau hyn. Er enghraifft, p'un a yw matâu'n ymwneud â gwasanaethau ataliol neu a ydynt wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol penodol lle mae gwasanaethau ar gael yn fwy parod.

Risg dychwelyd naill ai gyda phlentyn newydd neu gyda phlentyn blaenorol (Llwybrau 1 a 2)

Ffigur 10 yn cynrychioli'r tebygolrwydd cronus o fynd i (1) achos cyntaf a ailadroddir, ac (2) ail achos a ailadroddir gyda phlentyn newydd neu blentyn blaenorol (Llwybr 1 a Llwybr 2).

Ffigur 10: Y tebygolrwydd o ailddigwydd rhwng (1) yr episod mynegai a'r episod cyntaf a ailadroddir a'r (2) episod cyntaf a ailadroddir a'r ail episod a ailadroddir (Llwybrau 1 a 2)



Sylwer: Mae'r ardal ag arlliw'n cynrychioli'r cyfwng hyder o 95%. N = 82,051 (Lloegr), N = 5,032 (Cymru). Rydym yn adrodd y gyfradd ailddigwydd yn y ffigurau. Cyfradd ailddigwydd = 1 – cyfradd oresi.

Yn Lloegr, mae'r tebygolrwydd cronrus y bydd mam yn mynd i'w hachos cyntaf a ailadroddir naill ai gyda phlentyn newydd neu blentyn blaenorol yn 24.0% o fewn 7 mlynedd, a 27.1% o fewn 10 mlynedd. Yng Nghymru, roedd y tebygolrwydd o ailddigwydd o fewn 7 a 10 mlynedd yn 23.2% a 26.5% yn y drefn honno. Mae hyn yn golygu bod tuag 1 o bob 4 menyw yng Nghymru a Lloegr mewn perygl o ddychwelyd o fewn 10 mlynedd o gyhoeddi eu hachos mynegai. Felly, mae ein hamcangyfrifon o debygolrwydd ailddigwydd yn weddol gyson o hyd â'r amcangyfrifon a adroddwyd yn 2015 a 2017 i Loegr ac yn 2020 i Gymru (Broadhurst et al. 2015, 2017; Alrouh et al. 2020). Pan fyddwn yn arsylwi mamau am gyfnod hwy, gwelwn fymryn o gynnydd yn y tebygolrwydd cronrus ond, ar y cyfan, mae'r ystadegau'n awgrymu problem sydd heb newid ers cyhoeddi'r ystadegau meincnodi gwreiddiol.

Risg dychwelyd gyda phlentyn newydd yn unig (mamau Llwybr 1)

Yn yr adrannau sy'n dilyn, rydym yn rhoi amcangyfrif o risg ymddangos mewn achosion gofal mynych i bob mam Llwybr 1. Nesaf, archwiliom a yw'r risg dychwelyd yn amrywio, a sut mae'r risg dychwelyd yn amrywio, yn ôl:

- oedran amcangyfrifedig y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf
- y canlyniadau cyfreithiol i blant ar ddiwedd achosion gofal
- amserlen yr achosion (cyn ac ar ôl 2014)
- rhanbarth.

Cyflawnom brofion ystadegol pellach i ganfod gwahaniaethau yn ôl y trywyddau ymholi hyn.


Nodyn technegol

Defnyddir prawf rhengoedd lòg i gymharu cromliniau goroesi. Yn achos peryglon nad ydynt yn gyfrannol (h.y. cromliniau goroesi sy'n croestorri), defnyddiom brawf Peto-Prentice i ganfod gwahaniaethau ystadegol bwysig rhwng grwpiau (Dormuth et al. 2022).

Y tebygolrwydd o ailddigwydd yng Nghymru a Lloegr Mae

Ffigur 11 yn cynrychioli'r tebygolrwydd cronus y bydd achos cyntaf a ailadroddir, ac ail achos a ailadroddir, gydag o leiaf un plentyn newydd (Llwybr 1).

Ffigur 11: Y tebygolrwydd o ailddigwydd o'r episod mynegai i'r episod cyntaf a ailadroddir, ac o'r episod cyntaf a ailadroddir i'r ail episod a ailadroddir (Llwybr 1 yn unig)



Sylwer: Mae'r ardal ag arlliw'n cynrychioli'r cyfwng hyder o 95%. N = 82,051 (Lloegr), N = 5,032 (Cymru). Rydym yn adrodd y gyfradd ailddigwydd yn y ffigurau. Cyfradd ailddigwydd = 1 – cyfradd oresi.

O'r episod mynegai i'r episod cyntaf a ailadroddir

Yn Lloegr, mae'r canlyniadau'n dangos bod risg dychwelyd o fewn 7 mlynedd yn 19.0%, gan gynyddu i 21.1% o fewn 10 mlynedd. Yn yr un modd yng Nghymru, mae risg dychwelyd yn 19.0% a 21.7% o fewn 7 a 10 mlynedd, yn y drefn honno. Mae hyn yn awgrymu bod oddeutu 1 o bob 5 mam yn Llwybr 1 yng Nghymru a Lloegr yn debygol o dychwelyd i'r llys o fewn 10 mlynedd o gyhoeddi eu hachos mynegai.

Gan ddefnyddio dull tabl bywyd (gweler Tabl B.5 yn Atodiad B), roedd goroesiad mamau am 7 mlynedd yn gyffredinol yn Lloegr yn 81.0% ac roedd goroesiad mamau am 10 mlynedd yn gyffredinol yn 78.9%. Yng Nghymru, roedd y goroesiad am 7 mlynedd yn gyffredinol yn 81.0% ac roedd y goroesiad am 10 mlynedd yn gyffredinol yn 78.3%.

Nodyn technegol

Lluniwyd dosbarthiadau goroesi ar gyfer Cymru a Lloegr gan ddefnyddio dull tabl bywyd. Cyfrifir y swyddogaeth oroesi yn ôl y tebygolrwydd cronnus na fydd mam wedi cael profiad o ail achos gofal a.31. Crynhoir y tablau bywyd gyda blwyddyn rhyngddynt. Er enghraifft, bydd cyfradd oroesi gyffredinol o 10 mlynedd yn golygu bod 80% o debygolrwydd bod mamau heb ddychwelyd i'r llys teulu ar ôl 10 mlynedd ers dechrau eu hepisod mynegai.

O'r episod cyntaf a ailadroddir i'r ail episod a ailadroddir

Cwestiwn allweddol nad aeth ymchwil gyhoeddedig i'r afael ag ef o'r blaen yw p'un a yw risg dychwelyd i'r llys yn cynyddu yn dilyn achos cyntaf a ailadroddir. Mae hwn yn gwestiwn pwysig, gyda goblygiadau hollbwysig i ymarfer o safbwynt amseru a thargedu cymorth ataliol.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod risg ail episod a ailadroddir yn uwch o lawer. Mae mwy o risg i fam sy'n cael episod cyntaf a ailadroddir gael ail episod a ailadroddir. Yn Lloegr, mae risg y bydd 33.0% o famau yn dychwelyd mewn ail episod o fewn deng mlynedd ac mae hyn yn 26.9% yng Nghymru.

Y goroesiad cyffredinol sy'n cael ei amcanu i famau yn Lloegr a gafodd achos cyntaf a ailadroddir (gweler Sylwch: Yn y tablau bywyd, rydym yn adrodd y gyfradd oroesi. Cyfradd ailddigwydd = 1 – cyfradd oroesi.

Tabl B.6 yn Atodiad B) yn 68.9% ar ôl 7 mlynedd a 67.0% ar ôl 10 mlynedd. Roedd y cyfraddau goroesi i Gymru yn 74.8% ar ôl 7 mlynedd a 73.1% ar ôl 10 mlynedd.

Nodyn technegol

Mae prawf Peto-Prentice yn dangos gwahaniaethau sylweddol yn y swyddogaethau goroesi rhwng Lloegr a Chymru rhwng yr episod cyntaf a ailadroddir i'r ail episod a ailadroddir ($\chi^2 = 4.4$, $p < .05$) ond nid rhwng yr episod mynegai a'r episod cyntaf a ailadroddir ($\chi^2 = 0.5$, $p > .10$). Gweler

Tabl B.7 yn Atodiad B. Hynny, yr un yw tebygolrwydd ailddigwydd o'r mynegai i'r episod cyntaf a ailadroddir yng Nghymru a Lloegr, ond mae risg ail episod a ailadroddir yn uwch yn Lloegr.

O gymharu'r cromliniau goroesi ar gyfer yr episod mynegai i'r episod cyntaf a ailadroddir â'r episod cyntaf a ailadroddir i'r ail episod a ailadroddir, gwelwyd gwahaniaethau sylweddol yn Lloegr ($\chi^2 = 449.5$, $p < .001$) ac yng Nghymru ($\chi^2 = 8.7$, $p < .01$). Mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o ailddigwydd yn fwy i famau yn Lloegr ac yng Nghymru rhwng yr achos cyntaf a ailadroddir i'r ail achos a ailadroddir nag ydyw


o'r achos mynegai i'r achos cyntaf a ailadroddir. Gweler Tabl B.8 yn Atodiad B.

Mae Ffigur 12 yn dangos amcangyfrifon cyfraddau'r perygl a'r cyfyngau hyder o 95% ar gyfer yr episod mynegai i'r episod cyntaf a ailadroddir, a'r episod cyntaf a ailadroddir i'r ail episod a ailadroddir, yng Nghymru a Lloegr.

Mae cyfradd y perygl yn dangos, ar y cyfan, fod risg dychwelyd i'r llys ar gyfer achosion a.31 yng Lloegr ar ei uchaf yn ystod y tair blynedd gyntaf a'i bod yn dechrau dirywio wedi hynny.³⁰

O ran y risg y bydd mam yn mynd i'w hachos cyntaf a ailadroddir yn Lloegr, gwelwn fod y risg ar ei uchaf yn y flwyddyn gyntaf. Ar y llaw arall, mae risg y bydd mam yn mynd i'w hail achos a ailadroddir ar ei uchaf yn yr ail flwyddyn. Yng Nghymru, nid yw'r cyfyngau hyder eang o gwmpas yr amcangyfrifon yn ein galluogi i ddehongli'r canlyniadau yn derfynol.

Ffigur 12: Cyfradd y perygl y bydd mamau'n mynd i'w hachos cyntaf a ailadroddir a'i hail achos a ailadroddir




Sylwer: Mae'r bandiau glas yn nodi cyfyngau hyder o 95%.

Tebygolrwydd o ailddigwydd yn ôl oedran y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf

³⁰ Mae cyfradd y perygl yn cyfeirio at y tebygolrwydd amodol y bydd mam yn dychwelyd i'r llys ym mlwyddyn t , o ystyried nad yw wedi dychwelyd o'r blaen.

Adroddwyd cysylltiad rhwng oedran mam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf a risg ailddigwydd (Broadhurst et al. 2015, 2017). Yn yr astudiaeth hon, rydym wedi ailadrodd y dadansoddiad hwn. Dangosir amcangyfrifon Kaplan-Meier yn ôl oedran y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf yn Ffigur 13. Yn y ddwy wlad, roedd risg menywod a gafodd eu plentyn cyntaf yn iau o ddychwelyd i'r llys yn uwch. Mae'r canlyniadau'n dangos bod 28.0% a 26.1% o'r rhai yn Lloegr a Chymru, yn y drefn honno, a oedd rhwng 14 ac 17 oed pan gawsant eu plentyn cyntaf yn fwy tebygol o ailymddangos mewn achosion gofal o fewn 10 mlynedd.

Ffigur 13: Tebygolrwydd o ailddigwydd yn ôl oedran y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf



Sylwer: Mae'r ardal ag arlliw'n cynrychioli'r cyfwng hyder o 95%. N = 82,051 (Lloegr), N = 5,032 (Cymru). Rydym yn adrodd y gyfradd ailddigwydd yn y ffigurau. Cyfradd ailddigwydd = 1 – cyfradd oroesi. Mae N sy'n $t < 1$ ar gyfer pob categori oedran wedi'u cynnwys yn Tabl B.9 (Atodiad B).

Mae'r tebygolrwydd o ailddigwydd yn gostwng i 10.8% yn Lloegr a 10.5% yng Nghymru i famau a gafodd eu plentyn cyntaf yn 30 oed neu hŷn. Mae hyn yn awgrymu mai tuag 1 o bob 10 menyw yn y categori oedran 30+ yng Nghymru a Lloegr sy'n debygol o ailymddangos mewn achos dilynol o fewn 10 mlynedd, o gymharu ag oddeutu 1 o bob 4 yn y grŵp oedran ieuengaf.

Ar y cyfan, cynyddodd y tebygolrwydd goroesi yn ôl oedran y fam wrth roi genedigaeth am y tro cyntaf (gweler Tabl B.9 yn Atodiad B). Er enghraifft,

roedd goroesi 10 mlynedd yn gyffredinol yng Nghymru a Lloegr yn amrywio o 72% i'r rhai rhwng 14 ac 17 oed i 89% i'r rhai 30 oed neu hŷn.

Roedd holl gymariaethau'r parau yng Nghymru a Lloegr yn ystadegol bwysig heblaw'r cymariaethau rhwng y ddau gategori oedran ieuengaf (gweler Tabl B.10 yn Atodiad B). Hynny yw, nid yw'r tebygolrwydd o ailddigwydd yn amrywio'n sylweddol rhwng mamau a gafodd eu plentyn cyntaf yn 14-17 oed a mamau a gafodd eu plentyn cyntaf yn 18-19 oed.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cadarnhau ymchwil flaenorol, sy'n awgrymu bod ailddigwydd yn risg uwch o lawer i famau ifanc, yn enwedig y rhai sy'n cael eu plentyn cyntaf pan fyddant yn eu harddegau.

Gweler Ffigur C.1 yn Atodiad C am blot o'r cyfraddau perygl yn Lloegr a Chymru yn ôl oedran y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf.

Tebygolrwydd o ailddigwydd yn ôl canlyniad y gorchymyn cyfreithiol ar gyfer y plentyn

Cwestiwn allweddol yw p'un a oes perthynas rhwng risg dychwelyd i famau a chanlyniad y gorchymyn cyfreithiol ar ddiwedd yr achos ar gyfer ei phlentyn.³¹ Dangosir amcangyfrifon Kaplan-Meier yn ôl canlyniad cyfreithiol y plentyn yn Ffigur 14. Mae'r canlyniadau'n dangos bod gorchmynion mabwysiadu yn gysylltiedig â'r gyfradd ailddigwydd uchaf yng Nghymru a Lloegr. Yn bwysicach fyth, rydym yn darganfod bod 34.0% o famau yn Lloegr yr oedd eu plentyn neu eu plant yn destun cynllun i'w mabwysiadu yn debygol o ddychwelyd o fewn 10 mlynedd, o gymharu â dim ond 16%, 23.0%, 14.3%, a 9% ar gyfer gorchmynion gofal, lleoli gyda theulu a ffrindiau, lleoli gyda rhiant/rhieni, a mathau eraill o leoliad, yn y drefn honno.


Yn yr un modd yng Nghymru, mae mabwysiadu'n gysylltiedig â'r gyfradd ailddigwydd uchaf (31.1%), yna lleoli gyda theulu a ffrindiau (21.1%), gorchmynion gofal (20.9%), mathau eraill o leoliad (16.6%), a gofal rhiant/rhieni (10.8%).

Felly, roedd y tebygolrwyddau goroesi am 10 mlynedd (gweler Tabl B.11 yn Atodiad B) yn Lloegr ar eu huchaf ar gyfer mathau eraill o leoliad (91%) ac ar eu hisaf ar gyfer gorchmynion mabwysiadu (66.0%), ond yng Nghymru, roeddent ar eu huchaf ar gyfer gofal rhiant/rhieni (89.2%) ac ar eu hisaf ar gyfer gorchmynion mabwysiadu (68.9%). Roedd holl gymariaethau'r parau yn ystadegol bwysig yn Lloegr ($p < .05$) ond nid yng Nghymru ($p > .10$). Gweler Tabl B.12 yn Atodiad B.

Gweler Ffigur C.2 yn Atodiad C am blot o gyfraddau'r perygl yn Lloegr a Chymru yn ôl canlyniadau gorchmynion cyfreithiol.

³¹ Gweler Atodiad A am fanylion sut cafodd data'r gorchmynion cyfreithiol ei resymoli.

Ffigur 14: Tebygolrwydd o ailddigwydd yn ôl gorchymyn cyfreithiol




Sylwer: Mae'r ardal ag arlliw'n cynrychioli'r cyfwng hyder o 95%. N = 82,051 (Lloegr), N = 5,032 (Cymru). Rydym yn adrodd y gyfradd ailddigwydd yn y ffigurau. Cyfradd ailddigwydd = 1 – cyfradd oroesi. Mae N sy'n $t < 1$ ar gyfer pob categori o orchymyn cyfreithiol wedi'u cynnwys yn Tabl B.11 (Atodiad B).

Tebygolrwydd o ailddigwydd cyn ac ar ôl 2014

I archwilio cysylltiad rhwng y cyfyngiad statudol 26 wythnos a gyflwynwyd yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 ar debygolrwydd ailddigwydd ac o ystyried datblygiadau mewn gwasanaethau ataliol, rydym wedi amcangyfrif cromliniau goroesi Kaplan-Meier cyn ac ar ôl 2014 (Ffigur 15). Ar gyfer y dadansoddiadau hyn, rydym wedi cyfyngu'r cyfnod dilyn i fyny i 5 mlynedd. O gymharu â defnyddio'r ffenestr arsylwi lawn, sef 10 mlynedd, mae hyn yn golygu y bydd mwy o famau yn y sampl 5 mlynedd cyfyngedig heb gael amser eto i ddychwelyd (h.y. profi ail achos gofal). Gall hyn arwain at gyfradd ailddigwydd sy'n is yn artiffisial.³²

³² Ar gyfer y gyfradd ailddigwydd yng Nghymru a Lloegr (ffenestr arsylwi 10 mlynedd), rydym yn dibynnu ar yr amcangyfrifon yn yr adran 'Tebygolrwydd o ailddigwydd yng Nghymru a Lloegr (matau Llwybr 1)'.

Ffigur 15: Tebygolrwydd o ailddigwydd, cyn ac ar ôl 2014



Sylwer: Cyfyngwyd ar ddilyn i fyny i 5 mlynedd. Mae'r ardal ag arlliw'n cynrychioli'r cyfwng hyder o 95%. N = 82,051 (Lloegr), N = 5,032 (Cymru). Rydym yn adrodd y gyfradd ailddigwydd yn y ffigurau. Cyfradd ailddigwydd = 1 – cyfradd orosi. Mae N sy'n $t < 1$ ar gyfer categorïau cyn ac ar ôl 2014 wedi'u cynnwys yn Tabl B.13 (Atodiad B).

Mae'r canlyniadau'n dangos mân wahaniaethau yn y tebygolrwydd o ailddigwydd cyn ac ar ôl 2014 yng Nghymru a Lloegr. Yn Lloegr yn benodol, mae risg dychwelyd i'r llys ychydig yn uwch cyn 2014 (17.4%) nag oedd ar ôl 2014 (16.2%). A throi at Gymru, roedd risg dychwelyd i'r llys o fewn 5 mlynedd yn 16.9% ar ôl 2014, o gymharu â 15.5% cyn 2014.

Roedd y gyfradd orosi 5 mlynedd yn Lloegr ychydig yn uwch (83.8%) ar ôl 2014 o gymharu â chyn 2014 (82.6%) (gweler Tabl B.13 yn Atodiad B). Yng Nghymru, roedd y goroesiad 5 mlynedd cyffredinol yn 84.5% cyn 2014 ac yn 83.1% ar ôl 2014.

Nodyn technegol

Roedd prawf Peto-Prentice haenedig yn ystadegol bwysig yn Lloegr ($\chi^2 = 12.5$, $p < .001$), ond ddim yng Nghymru ($\chi^2 = 1.9$, $p > .10$) (Gweler Tabl B.14 yn Atodiad B).

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod y cyfnod ar ôl 2014 yn Lloegr yn gysylltiedig â risg ailddigwydd mymryn yn is o gymharu â'r cyfnod cyn 2014, ond yng Nghymru, yr un yw risg ailddigwydd â chyn 2014. Fel y

nodwyd uchod, serch hynny, dylid dehongli'r canfyddiadau hyn yn ofalus, o ystyried y cyfnod dilyn i fyny cyfyngedig.³³

Gweler Ffigur C.3 yn Atodiad C am blot o gyfraddau'r perygl yng Nghymru a Lloegr cyn ac ar ôl 2014.

Deall amrywiad rhanbarthol (Llwybr 1)

Cwestiwn allweddol yw p'un a yw risg ailddigwydd yn amrywio yn ôl rhanbarth (Llwybr 1). I fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, defnyddiwyd plotiau twndis i fesur a delweddu amrywiad rhanbarthol yn y gyfradd ailddigwydd 10 mlynedd i famau yn Lloegr, ac ar gyfer Cymru. Ar lefel y rhanbarth, rydym wedi cymharu Cymru gyfan â rhanbarthau Lloegr, oherwydd maint llawer llai y boblogaeth yng Nghymru.

Fodd bynnag, am gymariaethau o fewn gwledydd, rydym wedi edrych ar yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn Lloegr. Rydym wedi archwilio amrywiad rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ar wahân.

Lluniwyd y plotiau twndis trwy blotio'r gyfradd ailddigwydd 10 mlynedd yn erbyn nifer y mamau mewn achosion gofal a.31 ym mhob rhanbarth yn Lloegr ac ar gyfer Cymru.

Ar gyfer pob plot twndis isod, mae'r llinell lorweddol syth yn cynrychioli'r gyfradd genedlaethol. Mae'r llinellau toredig yn dangos y cyfyngiadau rheoli 95% a 99.7% sy'n cynrychioli dau a thri gwyrriad safonol, yn y drefn honno, o'r gyfradd genedlaethol ar sail ein gwerthoedd yn echelin-x. Nodir bod rhanbarthau sy'n ymddangos y tu allan i'r cyfyngiadau rheoli (linellau toredig) yn gwyro o'r gyfradd genedlaethol neu eu bod yn allanolion posibl.

Amrywiad ar lefel rhanbarth

Mae Ffigur 16 yn dangos y gyfradd ailddigwydd 10 mlynedd ar gyfer pob un o 9 rhanbarth Lloegr a Chymru – hynny yw, y tebygolrwydd y bydd mam yn dychwelyd i'r llys o fewn 10 mlynedd o'i hepisod mynegai. Mae pob pwynt data yn cynrychioli'r amcangyfrif ar gyfer un rhanbarth. Gwelwn fod Cymru a de-ddwyrain Lloegr yn dod o fewn y cyfyngiadau rheoli. Roedd cyfraddau ailddigwydd dwyrain Lloegr, Llundain a de-orllewin Lloegr yn sylweddol is na'r gyfradd genedlaethol, ond roedd gan ogledd-ddwyrain Lloegr, gorllewin canolbarth Lloegr, gogledd-orllewin Lloegr, dwyrain canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Humber gyfraddau ailddigwydd sylweddol uwch. Wrth gymharu Llundain, sydd â chyfradd ailddigwydd o 17.2%, mae hyn yn is o lawer na'r gogledd-ddwyrain, sydd bron yn 24%.


³³ Er enghraifft, efallai na fydd mamau a ddaeth i'r sampl yn 2017/18 wedi cael cyfle eto i ddychwelyd i'r llys teulu. Hefyd, archwiliom y newid yn y gyfradd ailddigwydd yng Nghymru a Lloegr dros gyfnod. Mae'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Tabl B.16 yn Atodiad B ac yn Ffigur C.4 yn Atodiad C.

Yn gyffredinol, gwelwn raniad rhwng Llundain a de Lloegr, a chanolbarth a gogledd Lloegr.

Nid yw'r amrywiad hwn yn syndod o ystyried yr hyn a wyddom o'r gyfres *Born into Care* am gyfraddau uwch o fabanod newydd-anedig mewn achosion gofal yng ngogledd-ddwyrain Lloegr er enghraifft, a chyfraddau is o lawer yn Llundain (gweler Broadhurst et al. 2018; Alrouh et al. 2020). Fel y nodom uchod, mae 82.2% o blant yn Llwybr 1 yn fabanod mewn achos gofal cyntaf a ailadroddir. Felly, byddem yn disgwyl gweld cysondeb ar lefel ranbarthol rhwng cyfraddau aiddigwydd a'r babanod newydd-anedig mewn achosion gofal.

Mae'r tebygolrwyddau goroesi 10 mlynedd ar gyfer pob rhanbarth i'w gweld yn Tabl B.15 yn Atodiad B.

Ffigur 16: Plot twndis yn dangos y tebygolrwydd o aiddigwydd yn ôl rhanbarth Lloegr a Chymru





Amrywiad ar lefel awdurdod lleol

Mae Ffigur 17 a Ffigur 18 yn dangos y gyfradd aiddigwydd 10 mlynedd ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru ar wahân. Mae dosbarthiad y gyfradd aiddigwydd yn dangos bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dod o fewn y cyfyngiadau rheoli yn y ddwy wlad.

Yn Lloegr, roedd gan 34 o awdurdodau lleol (23%) gyfraddau aiddigwydd islaw'r cyfyngiad rheoli is, sef 95%, gan gynnwys 13 awdurdod lleol o 3 rhanbarth (10 yn Llundain, 2 yn y de-ddwyrain ac 1 yn nwyrain Lloegr) â chyfraddau aiddigwydd islaw'r cyfyngiad rheoli is, sef 99.7%. Ystyrir bod yr

awdurdodau lleol hyn yn allanolion isel. I'r gwrthwyneb, mae 31 o awdurdodau lleol (21%) yn allanolion uchel (h.y. mae eu cyfraddau ailddigwydd uwchlaw'r cyfradd rheoli uwch, sef 95%), gan gynnwys 13 awdurdod lleol (4 yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, 2 yr un yng ngogledd-orllewin Lloegr, dwyrain canolbarth Lloegr a de-ddwyrain Lloegr; ac 1 yn Swydd Efrog a Humber, gorllewin canolbarth Lloegr a de-orllewin Lloegr) â chyfraddau ailddigwydd uwchlaw'r cyfyngiadau rheoli uwch, sef 99.7%. Eto, gwelwn raniad rhwng Llundain a de Lloegr (cyfraddau ailddigwydd is yn gyffredinol), a chanolbarth a gogledd Lloegr (cyfraddau ailddigwydd uwch yn gyffredinol), ond mae'n bwysig nodi hefyd fod amrywiad yn aml rhwng awdurdodau lleol o fewn yr un rhanbarth.³⁴

Ffigur 17: Plot twndis o'r tebygolrwydd o ailddigwydd yn ôl awdurdod lleol yn Lloegr




Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol (Ffigur 18) yng Nghymru gerllaw cyfradd genedlaethol Cymru. Fodd bynnag, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru, mae dau awdurdod lleol yn dangos cyfraddau sylweddol is ac mae un awdurdod lleol yn dangos cyfraddau sylweddol uwch.

Felly, trwy graffu ar amrywiad rhanbarthol a rhwng awdurdodau lleol, dechreuwn weld yr ardaloedd â'r angen mwyaf, lle y mae angen mwyhau'r ddarpariaeth, i fynd i'r afael â chyfraddau ailddigwydd uwch na'r disgwyl.

³⁴ Gallwch weld plotiau twndis pellach yn dangos yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol ar gyfer pob un o'r rhanbarthau yn Atodiad C (Ffigur C.5 i Ffigur C.13)

Ffigur 18: Plot twndis o'r tebygolrwydd o aiddigwydd yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru



Trafodaeth

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn dangos bod cyfran sylweddol o famau, yng Nghymru a Lloegr, yn debygol o dychwelyd i'r llys, ar ôl ymddangos yn flaenorol mewn achosion gofal.

- Ar sail yr holl fenywod mewn achosion gofal mynych, dros gyfnod 10 mlynedd (2011/12–2020/21), rydym yn amcangyfrif bod 1 o bob 4 menyw mewn perygl o dychwelyd ac, yn achos y mamau ieuengaf, mae'r risg hon yn cynyddu i 1 o bob 3.

Mae'r canfyddiadau a adroddwn yn debyg iawn i'r rhai a adroddom ar gyfer Lloegr yn 2015 (gweler Broadhurst et al. 2015, yn seiliedig ar achosion a gyhoeddwyd rhwng 2007 a 2014) ac ar gyfer Cymru yn 2020 (gweler Alrouh et al. 2020, yn seiliedig ar achosion a gyhoeddwyd rhwng 2011 a 2018). Mae'r canfyddiadau'n debyg o ran risg dychwelyd a phatrwm. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod nifer y mamau sy'n dychwelyd i'r llys (nifer crai) wedi cynyddu'n amlwg.

- Oherwydd y bu cynnydd amlwg yn lefel yr achosion gofal yn genedlaethol, mae mwy o famau'n dychwelyd i'r llys. Mae hyn yn golygu bod yr her i ddarparwyr gwasanaeth yn fwy hefyd, a hynny oherwydd bod angen dod o hyd i'r adnoddau i helpu nifer fwy o famau.

Fel y datganwyd, ers cyhoeddi'r amcangyfrifon cyntaf ar gyfer Lloegr yn 2015, mae ein gwybodaeth am batrymau dychwelyd i'r llys gan fenywod wedi esblygu. Felly, yn yr adroddiad hwn, rydym wedi llunio proffil o famau yn ôl dau lwybr gwahanol, sydd wedi caniatáu am ddatgelu darlun cliriach o famau mewn 'achosion mynych o gymryd plant oddi arnynt'.

- O ran Llwybr 1, rydym wedi datgelu canfyddiadau pryderus am raddfa mamolaeth yn ystod yr arddegau, ar sail ein hamcangyfrifon oedran. Amcangyfrifir bod cyfran uchel o famau rhwng 14 a 19 oed pan fyddant yn dod yn famau am y tro cyntaf. Hefyd, rydym wedi dal darlun mwy cywir o gyfran yr achosion mynych sy'n ymwneud â babanod.

Ar sail y canfyddiadau o'r dadansoddiad goroesi, rydym yn gweld darlun risg gweddol statig ar gyfer mamau Llwybr 1. Mae'r canfyddiadau'n dangos nad ydym yn gweld unrhyw ostyngiad sylweddol eto yn y tebygolrwydd y bydd menywod yn dychwelyd i'r llys yng Nghymru a Lloegr ar gyfer achos gofal cyntaf. O ran Llwybr 1, bydd tuag 1 o bob 5 mam yn dychwelyd i'r llys yn dilyn ymddangosiad mynegai, yn nodweddiadol mewn achos sy'n ymwneud â baban.

Am y tro cyntaf, rydym hefyd wedi sefydlu'r canlynol ar gyfer mamau Llwybr 1:

- mae risg dychwelyd i'r llys yn cynyddu ar ôl episod cyntaf a ailadroddir
- mae gwahaniaethau rhanbarthol amlwg yn Lloegr.

Proffilio mamau yn Llwybr 1 – dod yn fam yn ifanc

Un o ganfyddiadau pryderus ein dadansoddiadau newydd o famau mewn achosion gofal mynych yw'r gyfran uchel o famau ifanc iawn yn Llwybr 1. I'r gwrthwyneb llwyr i'r boblogaeth yn gyffredinol, amcangyfrifwyd bod 42% o famau rhwng 14 ac 19 oed pan gawsant faban am y tro cyntaf. At hynny, mae dadansoddiad archwiliadol o'r ffactorau sydd ynghlwm â risg uwch dychwelyd i'r llys gan ddefnyddio dulliau dadansoddiad goroesi hefyd yn pwysleisio natur fregus mamau ifanc. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd ag astudiaethau ansoddol, sydd hefyd wedi datgelu natur fregus mamau yn eu harddegau mewn achosion gofal. Dywed astudiaethau nad yw mamau ifanc yn gallu manteisio ar ddigon o gymorth i'w galluogi i ymdopi â galwadau bod yn fam. Yn gyffredinol, nid yw mamau ifanc sydd mewn perygl o ymddangos fel ymatebwyr mewn achosion gofal wedi'u paratoi'n dda ar gyfer mamolaeth, yn emosiynol nac yn ariannol. O ymchwil gynt (Broadhurst et al. 2017; Broadhurst and Mason 2020; Boddy et al. 2020), gwyddom hefyd fod llawer o'r mamau hyn wedi gadael gofal.

Ar sail ein canfyddiadau newydd, mae'n glir bod yn rhaid talu llawer mwy o sylw i anghenion mamau ifanc, eu partneriaid a'u rhwydweithiau teuluol ehangach. Hyd yn hyn, nid yw llawer o'r llenyddiaeth ymchwil a gyhoeddwyd ar achosion gofal wedi gwahaniaethu rhwng rhieni o safbwynt oedran. Eto, mae'n amlwg bod rhieni ifanc sy'n ymrafael â'u hanghenion datblygiadol eu hunain – gydag adnoddau cymdeithasol ac ariannol cyfyngedig iawn yn nodweddiadol – yn haeddu sylw arbennig o ran y ffordd y cânt eu cefnogi i lywio'r system cyfiawnder teuluol ac, yn wir, cyn achosion gofal. Mae'r Family Rights Group a'r Youth Advocacy Service wedi datblygu rhai adnoddau rhagorol i helpu mwy o rieni ifanc i ddal gafael ar ofal eu plant a/neu lywio'r system cyfiawnder teuluol.³⁵ Yn ogystal, mae angen gwaith pellach i ddeall: cwmpas yr ymarfer ataliol pan fydd rhieni ifanc yn wynebu achosion gofal; cysondeb y cymorth a'r eiriolaeth teilwredig cyn ac yn ystod achosion gofal; a pha help y mae rhieni ifanc yn ei gael os caiff plant eu cymryd o'u gofal. Y dystiolaeth ar lafar gan ymarferwyr yw bod rhieni ifanc yn fwy tebygol o ymddieithrio yn ystod achosion gofal a gwrthod y gwasanaethau a gynigir, a allai helpu i esbonio'r risg uwch y byddant yn dychwelyd i'r llys.

³⁵ Gweler Advice for Young Parents gan y Family Rights Group: <https://www.frg.org.uk/ypa/>

Datblygiadau i wasanaethau – a ydynt ar raddfa amserol a digonol?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu ystadegau newydd ar risg dychwelyd i'r llys ar gyfer pob mam mewn achosion gofal mynych a mamau yn Llwybr 1. Fel y dywedir uchod, er gwaethaf bron i ddegawd o ymchwil ac arloesi mewn gwasanaethau, mae'r darlun cenedlaethol yn dangos mai prin yw'r newid yng Nghymru a Lloegr pan fesurwn risg achos gofal cyntaf a ailadroddir ar lefel genedlaethol. At hynny, o ystyried y cynnydd yn nifer yr achosion gofal yng Nghymru a Lloegr, mae gan lawer mwy o famau broffil mynych, sy'n cynyddu'r her i ymarferwyr sy'n ceisio cyllid ar gyfer gwasanaethau pwrpasol.

Felly, sut rydym yn esbonio'r ystadegau hyn? O ran Cymru, dim ond yn 2018 y penderfynwyd cyflwyno menter Reflect ac mae'n anghyflawn, felly yn ôl pob tebyg, mae'n rhy gynnar canfod newid sylweddol mewn ystadegau, o gofio mai data ar gyfer y flwyddyn yn gorffen yn 2020/21 oedd y data mwyaf diweddar a oedd ar gael i ni ar gyfer yr adroddiad hwn. Yn ogystal â Reflect, mae gwasanaethau eraill sy'n mynd i'r afael ag ailadrodd wedi'u datblygu, fel Jig-So yn Abertawe a Baby in Me yng Nghasnewydd.³⁶ Fodd bynnag, mae ardaloedd o hyd yng Nghymru lle y mae menywod yn annhebygol o allu cael at gwasanaethau pwrpasol sy'n anelu at atal achosion mynych. Mae ein hystadegau newydd yn darparu tystiolaeth bellach o'r angen i sicrhau na chollir momentwm wrth ehangu a chynyddu graddfa rhaglen Reflect o ystyried y dystiolaeth werthusol gadarnhaol, ac wrth sicrhau cymorth parhaus i'r mentrau addawol eraill sy'n gweithio gyda rhieni yn ystod beichiogrwydd. Yn ogystal, bydd monitro cyfraddau achosion mynych yn y dyfodol yn parhau'n bwysig.

Yn Lloegr, fel y dywedwyd yn adrannau cefndir yr adroddiad hwn, mae gan ddatblygiadau i wasanaethau hanes hirach o lawer. Ond bu datblygiadau'n anghyson ar draws y wlad – mae rhai gwasanaethau ataliol wedi cau ac mae llawer o ardaloedd heb wasanaeth o gwbl. Er bod diffyg data cenedlaethol cadarn am ddatblygiadau i wasanaethau, mae'n debygol nad ydynt ar raddfa ddigonol i leihau risg menywod o ddychwelyd, yn syml. Mae dogfen fapio Mason and Wilkinson (2021, ar ddod) yn cynnig trosolwg rhagorol o ymagweddau at ymarfer, ond nid diben y ddogfen oedd cael tystiolaeth gadarn am raddfa mentrau, eu hyd, na faint o fenywod yn Lloegr yn gyfan gwbl a gafodd wasanaeth. Mae Pamela Cox a'i chydweithwyr (2020) wedi buddsoddi llawer o egni mewn datblygu pecyn gwerthuso gwerthfawr a ddarparwyd ar-lein ar ffurf adnodd ffynhonnell agored, ond maent yn dadlau mai prin yw'r gwerthusiadau sydd wedi'u cyhoeddi. Mae gwerthusiad amlsafle o Pause gan Janet Boddy a'i chydweithwyr (2020) yn

³⁶ Gweler: <https://sbuhb.nhs.wales/news/swansea-bay-health-news/jig-sos-success-with-swansea-families/>; a <https://www.barnardos.org.uk/what-we-do/services/baby-me>

darparu tystiolaeth gadarn o werth y gwasanaeth hwn i lawer o fenywod wrth atal achosion mynych o gymryd plant oddi arnynt.

Wrth lunio ein hargymhellion o'r ymchwil hon, mae sgysiau ag arloeswyr ymarfer wedi bod o gymorth mawr i ni. Mae ymarferwyr yn cytuno nad yw graddfa datblygiadau i wasanaethau yn ddigonol ar hyn o bryd i fodloni anghenion y menywod sydd angen help. Yng nghyd-destun poblogaeth gynyddol o famau sy'n dychwelyd, mae'n hynod debygol bod gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd cynnig cymorth dwys hyd yn oed i ffracsiwn o'r mamau sydd ei angen. Heb os, heb yr amrywiaeth o wasanaethau sydd bellach ar gael, byddai nifer y mamau sy'n dychwelyd yn uwch – felly, mae'n hanfodol bod cyllid yn cael ei ddarparu i helpu gyda'r ehangu fel y gall yr holl rieni y mae eu plant yn cael eu cymryd oddi arnynt trwy achosion gofal gael lefel briodol o gymorth. Mae sgysiau ag ymarferwyr yn adlewyrchu natur esblygol datblygiadau i ymarfer ym maes darparu'r gwasanaethau hyn. Er enghraifft, dechreuodd nifer o wasanaethau gyda model a ymyrrodd yn hwyrach yn y 'cylch risg' (ar ôl cymryd plentyn am yr ail neu'r trydydd tro), yn hytrach nag yn ystod neu yn dilyn achos gofal cyntaf. Felly, roedden yn canolbwyntio ar atal achosion gofal lluosog a ailadroddir, yn hytrach na mynd i'r afael ag anghenion 'mamau sy'n dychwelyd am y tro cyntaf'. Fodd bynnag, mae'r diweddariad mapio gwasanaethau diweddar (Mason and Wilkinson 2021, ar ddod) a sgysiau ag ymarferwyr trwy'r Gymuned Ymarfer³⁷ genedlaethol yn awgrymu bod nifer o wasanaethau wedi ystyried efallai nad ydynt yn ymyrryd yn ddigon cynnar. O ganlyniad, mae rhai wedi diwygio meini prawf eu gwasanaeth ac maent bellach yn cynnig gwasanaeth i rieni ar ôl i'w plentyn cyntaf gael ei gymryd o'u gofal neu, mewn rhai achosion – pan fydd pryder sylweddol y gall fod angen gwahanu adeg genedigaeth – yn ystod beichiogrwydd. Mae buddsoddiad cenedlaethol mewn cefnogaeth ar gyfer gwerthuso yn hanfodol er mwyn i ni ddeall effaith yr ymyriadau hyn sydd ar raddfa fechan, ond sy'n hanfodol. Dim ond trwy waith gwerthuso mwy manwl y byddwn yn gallu deall effaith gwasanaethau ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol yn llawnach.

Mae'r dadansoddiadau a gyflwynwn yn yr adroddiad hwn yn amcangyfrif risg rhwng ymddangosiad mynegai menywod a'u hachos gofal cyntaf a ailadroddir. Er ei bod hi'n hanfodol bod cymorth therapiwtig dwys yn cael ei gynnig i famau sydd wedi colli sawl plentyn o'u gofal, oni fyddem eisiau osgoi'r trawma hwn i famau, partneriaid a pherthnasoedd ehangach trwy gynnig help yn gynt o lawer? Caiff dadl o blaid ymyrryd yn gynt ei gefnogi gan y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, sy'n awgrymu bod mwy o risg ail achos gofal a ailadroddir, yn dilyn achos gofal cyntaf a ailadroddir. Mewn ymchwil flaenorol, rydym wedi dadlau y gall fod yn anodd i newid amgyffredion awdurdodau lleol a'r llysoedd teulu o risg, os oes gan fam hanes o ymddangosiadau mynych mewn achosion gofal (Broadhurst and Mason 2020).

³⁷ <https://supportingparents.researchinpractice.org.uk/>

Yn olaf, mae'n hanfodol bod llunwyr polisi rhanbarthol a chenedlaethol ac arweinwyr ymarfer yn cydnabod natur amlochrog anghenion rhieni mewn achosion gofal ac yn ceisio rhannu cyllid ar draws ieched a gofal cymdeithasol i atal achosion gofal mynych. Mae gwaith blaenorol gan y tîm eisoes wedi dangos tystiolaeth bod y mamau a'r tadau mewn achosion gofal yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o droi at ddarpariaeth gofal ieched brys neu argyfwng (Griffiths et al. 2020; Johnson et al. 2022). Hyd yn hyn, prin fu'r dadansoddiad o'r ffordd y gallai cyllid a darpariaeth traws-sector weithio i sicrhau cyllid mwy parhaol – a darparu ymateb mwy integredig i anghenion rhieni mewn achosion gofal.

Ymyrryd yn gynt yn y cylch risg

Er mwyn ymyrryd yn gynnar yng nghylch achosion gofal mynych, mae angen nodi ac atgyfeirio mamau yn effeithiol ac yn amserol – hynny yw, cyn ailadrodd am y tro cyntaf. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw prosesau awdurdodau lleol a llysoedd yn arbennig o addas ar gyfer ymyrryd yn gynnar. Nid yw mwyafrif awdurdodau lleol yn dal ymddangosiadau rhieni mewn achosion gofal mynych fel mater o drefn. Mae data'n canolbwyntio ar y plentyn, i raddau helaeth. Nid oes unrhyw ystadegau monitro swyddogol ar lefel genedlaethol, ychwaith. Yn ogystal, nid yw'r llysoedd yn amlygu achosion mynych yn systematig. Felly, y prif fecanwaith ar gyfer atgyfeirio i wasanaethau therapiwtig dwys yw atgyfeirio gan weithiwr proffesiynol ar sail gwybodaeth bersonol am famau sydd â hanes o gymryd plant oddi arnynt yn fynych. Bydd angen ymagwedd fwy systematig er mwyn i famau sydd mewn perygl o ddychwelyd gael unrhyw obaith o osgoi achos cyntaf a ailadroddir.

Trwy ddefnyddio data sydd ar gael gan Cafcass a Cafcass Cymru, rydym wedi sefydlu (uchod) mai mamau ifanc sy'n famau am y tro cyntaf sy'n fwyaf tebygol o ddychwelyd i'r llys, felly hefyd y mamau y mae eu plentyn yn destun cynllun i'w fabwysiadu (gorchymyn lleoli) adeg yr achos mynegai. Yr her at y dyfodol yw adeiladu darlun mwy cynhwysfawr o ystod ehangach o ffactorau sy'n gysylltiedig ag ailadrodd, gan ddefnyddio gwybodaeth gysylltiedig am ieched, gofal cymdeithasol a gwybodaeth ddemograffig.

Wrth gwrs, yr ateb gorau o bell ffordd fyddai cynnig cymorth dwys a theilwredig i bob rhiant y cymerwyd plentyn o'u gofal i ailadeiladu eu bywyd, gan wasanaethau arbenigol sy'n canolbwyntio ar oedolion, ynghyd â gwasanaethau plant. Heb os, hawl cyffredinol i help parhaus yw'r ffordd orau ymlaen (Adolygiad o'r Argyfwng Gofal 2018).

Cysoni datblygiad gwasanaethau ag angen rhanbarthol

Dyma'r tro cyntaf i wahaniaethau rhanbarthol o ran ailadrodd fod yn destun craffu, ar sail Llwybr 1. Pan fyddwn yn canolbwyntio ar Lwybr 1, gwelwn amrywiad sylweddol yn y cyfraddau ailadrodd, fel y gellid ei ddisgwyl rhwng Llundain a de Lloegr, a chanolbarth a gogledd Lloegr – mae'r cyfraddau'n dangos yr amrywiad mwyaf pan gymharwn Llundain a gogledd-ddwyrain Lloegr. Nid yw'r canfyddiadau hyn yn syndod o ystyried yr ymchwil gysylltiedig i fabanod newydd-anedig mewn achosion gofal (Broadhurst et al. 2018). Yn ogystal, fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod cyfraddau'r achosion gofal mynych ar eu uchaf yn yr un manau â'r cyfraddau beichiogrwydd cenedlaethol uchaf yn ystod yr arddegau. Eto, nid yw'n syndod bod cyfraddau beichiogrwydd yn yr arddegau yn mapio'n unol â chyfraddau ailddigwydd, o ystyried yr hyn y gwyddom am orgynrychiolaeth mamau yn eu harddegau mewn achosion gofal. Ar hyn o bryd, gogledd-ddwyrain Lloegr sydd â'r cyfraddau uchaf o feichiogrwydd yn yr arddegau (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2022) ac, o'r astudiaeth hon, y gyfradd uchaf o achosion gofal. Mewn adroddiadau blaenorol, nodom hefyd y cyd-destun economaidd-gymdeithasol anodd iawn i ymarferwyr a theuluoedd yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, oherwydd y cyllid annigonol ar gyfer gwasanaethau ataliol (Pattinson et al. 2021).

Fodd bynnag, nid yw mapio cyfraddau ailadrodd yn ôl rhanbarth wedi llywio datblygiadau i wasanaethau hyd yn hyn. Wrth gwrs, mae niferoedd a risg yn bwysig i gynllunio gwasanaethau. Fodd bynnag, lle y mae cyfraddau achosion gofal mynych yn uchel, bydd mwy o grynodiad o deuluoedd a chymunedau'n profi'r math hwn o ymyrraeth gan y wladwriaeth. Gan edrych tua'r dyfodol, mae'n hanfodol bod dadansoddiad rhanbarthol o ofal ac achosion gofal mynych yn llywio strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael ag achosion gofal mynych.

Casgliad

Er mwyn datblygu agenda i leihau achosion gofal mynych, mae'r pum pwynt canlynol yn allweddol.

- Mae'r risg uchel y bydd mamau ifanc yn dychwelyd i'r llys, a nodir yn yr adroddiad hwn, yn adeiladu ar ymchwil flaenorol sy'n adrodd fod llawer o'r mamau ifanc hyn hefyd yn ymadawyr gofal (Broadhurst et al. 2017; Broadhurst and Mason 2020; Boddy et al. 2020). Mae'r canfyddiad hwn yn darparu tystiolaeth bellach bod angen cryfhau'r cymorth i rieni ifanc, gan gynnwys ymadawyr gofal, yn ystod beichiogrwydd, achosion gofal, a thu hwnt. Yn wir, mae angen dechrau paratoi'n well ar gyfer bod yn rhiant cyn beichiogrwydd cyntaf.
- Mae tystiolaeth o'r risg uwch yn dilyn achos cyntaf a ailadroddir yn awgrymu mai'r ateb gorau o bell ffordd i batrwm posibl achosion mynych ar ôl cymryd plentyn oddi ar riant fyddai cynnig cymorth dwys a theilwredig i bob rhiant yn y sefyllfa honno i ailadeiladu eu bywyd, gan wasanaethau arbenigol sy'n canolbwyntio ar oedolion. Heb os, hawl cyffredinol i help parhaus yw'r ffordd orau ymlaen.
- Mae angen codi'r bar o ran sicrhau bod adnoddau ar gael i gasglu a chyfiosod data gwerthuso ardal leol (gan gydnabod her dod o hyd i gyllid ar gyfer gwerthuso ar raddfa fechan). Ar hyn o bryd, mae gan wasanaethau ddata gwerthfawr – ond nid oes rhyw lawer o goladu'r data hwn ar draws gwasanaethau. Ar lefel genedlaethol, dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF archwilio opsiynau am gynnwys data monitro ailadrodd o fewn ystadegau llysoedd teulu.
- Rhaid cymharu data canlyniadau gwerthuso â'r hyn y gallem fod wedi'i ddisgwyl pe na bai gwasanaethau ar gael.
- Rhaid i fuddsoddiadau a datblygiad gwasanaethau gyd-fynd yn agosach ag angen rhanbarthol. Mewn ardaloedd sydd â chyfraddau uchel o achosion gofal, gall fod yn anodd symud adnoddau ymhellach i fyny i atal ailadrodd, felly mae angen neilltuo cyllid yn gymesur ag angen.

Cyfeiriadau

Alrouh, B., Broadhurst, K. ac Cusworth, L. (2020). *Menywod mewn achosion gofal mynych yng Nghymru: adroddiad meincnodi cyntaf*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/Nuffield-FJO-recurrence-in-Wales_Feb-2020_Welsh-language-1-.pdf

Bedston, S., Hu, Y., Philip, G., Youansamouth, L., Brandon, M., Broadhurst, K. and Clifton, J. (2019). Understanding recurrent care proceedings: Competing risks of how mothers and fathers enter subsequent care proceedings in England. *International Journal of Population Data Science*, 4(3). <https://doi.org/10.23889/ijpds.v4i3.1300>

Bennett, D., Mason, K., Schlueter, D., Wickham, S., Lai, E., Alexandros, A., Barr, B. and Taylor-Robinson, D. (2020). Trends in inequalities in children looked after in England between 2004 and 2019: A local area ecological analysis. *BMJ Open*, 10(11): e041774. <https://doi.org/10.1136/bmjopen-2020-041774>

Boddy, J. Bowyer, S., Godar, R., Hale, C., Kearney, J., Preston, O., Wheeler, B. and Wilkinson, J. (2020). *Evaluation of Pause*. Yr Adran Addysg. [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/932816/Pause - Sussex.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/932816/Pause_-_Sussex.pdf)

Brandon, M., Thoburn, J., Lewis, A. and Way, A. (1999). *Safeguarding children with the Children Act 1989*. Y Llyfrfa. <https://research-portal.uea.ac.uk/en/publications/safeguarding-children-with-the-children-act-1989>

Broadhurst, K., Alrouh, B., Yeend, E., Harwin, J., Shaw, M., Pilling, M., Mason, C. and Kershaw, S. (2015). Connecting events in time to identify a hidden population: Birth mothers and their children in recurrent care proceedings in England. *The British Journal of Social Work*, 45(8), tt. 2241–2260. <https://doi.org/10.1093/bjsw/bcv130>

Broadhurst, K., Mason, C., Bedston, S., Alrouh, B., Morriss, L., McQuarrie, T., Palmer, M., Shaw, M., Harwin, J. and Kershaw, S. (2017). *Vulnerable birth mothers and recurrent care proceedings*. Prifysgol Caerhirfryn. http://wp.lancs.ac.uk/recurrent-care/files/2017/10/mrc_final_main_report_v1.0.pdf

Broadhurst, K., Mason, C. and Webb, S. (2018). Birth mothers returning to court: Can a developmental trauma lens inform practice with women at risk of repeat removal of infants and children? Yn M. Shaw and S. Bailey

(goln). *Justice for children and families: A developmental perspective* (tt. 59–67). Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Broadhurst, K. and Mason, C. (2020). Child removal as the gateway to further adversity: Birth mother accounts of the immediate and enduring collateral consequences of child removal. *Qualitative Social Work*, 19(1), tt. 15–37. <https://doi.org/10.1177/1473325019893412>

Broadhurst, K., Mason, C. and Ward, H. (2022). Urgent care proceedings for new-born babies in England and Wales – time for a fundamental review. *International Journal of Law, Policy and the Family*, 36(1), ebac008. <https://doi.org/10.1093/lawfam/ebac008>

Bywaters, P., Brady, G., Sparks, T. and Bos, E. (2016). Child welfare inequalities: New evidence, further questions. *Child & Family Social Work*, 21(3), tt. 369–380. <https://doi.org/10.1111/cfs.12154>

CoramBAAF. (n.d.). *Statistics on special guardianship*. Adalwyd 20 Awst 2022 o: <https://corambaaf.org.uk/practice-areas/kinship-care/special-guardianship/statistics-special-guardianship>

Cox, P. (2012). Marginalized mothers, reproductive autonomy, and ‘repeat losses to care’. *Journal of Law and Society*, 39(4), tt. 541–561. <https://doi.org/10.1111/j.1467-6478.2012.00599.x>

Cox, P., Barratt, C., Blumenfeld, F., Rahemtulla, Z., Taggart, D. and Turton, J. (2017). Reducing recurrent care proceedings: initial evidence from new interventions. *Journal of Social Welfare and Family Law*, 39 (3), tt. 332–349. <https://doi.org/10.1080/09649069.2017.1345083>

Cox, P., McPherson, S., Mason, C., Ryan, M. and Baxter, V. (2020). Reducing recurrent care proceedings: Building a local evidence base in England. *Societies*, 10(4), 88. <https://doi.org/10.3390/soc10040088>

Cox, P., McPherson, S. and Blumenfeld, F. (2021). Protecting children, empowering birth parents: New approaches in family justice. *Societies*, 11(2), 32. <https://doi.org/10.3390/soc11020032>

Crawford, T. N., Cohen, P. R., Chen, H., Anglin, D. M. and Ehrensaft, M. (2009). Early maternal separation and the trajectory of borderline personality disorder symptoms. *Development and Psychopathology*, 21(3), tt. 1013–1030. <https://doi.org/10.1017/s0954579409000546>

Cusworth, L., Hooper, J., Henderson, G., Whincup, H. and Broadhurst, K. (2022). *Born into care in Scotland: Circumstances, recurrence and pathways*. Llywodraeth yr Alban. <https://www.gov.scot/binaries/content/documents/govscot/publications/research-and-analysis/2022/04/born-care-scotland-circumstances-recurrence-pathways/documents/born-care-scotland-circumstances-recurrence-pathways/born-care-scotland-circumstances-recurrence-pathways/govscot%3Adocument/born-care-scotland-circumstances-recurrence-pathways.pdf>

- Yr Adran Addysg. (2022). *Children looked after in England including adoptions*. Adalwyd 20 Awst 2022 o: <https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/children-looked-after-in-england-including-adoptions/2021>
- Doebler, S., Broadhurst, K., Alrouh, B., Cusworth, L. and Griffiths, L. (2022). Born into care: Associations between area-level deprivation and the rates of children entering care proceedings in Wales. *Children and Youth Services Review*, 141, 106595. <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2022.106595>
- Dormuth, I., Liu, T., Xu, J., Yu, M., Pauly, M. and Ditzhaus, M. (2022). Which test for crossing survival curves? A user's guideline. *BMC Medical Research Methodology*, 22(1), tt. 1–7. <https://doi.org/10.1186/s12874-022-01520-0>
- Family Law (2013). *Re B-S (Adoption: Application of Threshold Criteria) [2013] EWCA Civ 1146*. https://www.familylaw.co.uk/docs/pdf-files/re_b-s-children_2013_EWCA_Civ_1146.pdf
- Family Law (2013). *Re B (Care Proceedings: Appeal) [2013] UKSC 33, [2013] 2 FLR 1075* <https://www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed114409>
- Family Rights Group. (2018). *Care crisis review: Options for change*. <https://www.basw.co.uk/system/files/resources/care-crisis-review.pdf>
- Ford, D. V., Jones, K. H., Verplancke, J. P., Lyons, R. A., John, G., Brown, G., Brooks, C. J., Thompson, S., Bodger, O., Couch, T. and Leake, K. (2009). The SAIL Databank: Building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC Health Services Research*, 9, 157. <https://doi.org/10.1186/1472-6963-9-157>
- Grant, T., Huggins, J., Graham, J. C., Ernst, C., Whitney, N. and Wilson, D. (2011). Maternal substance abuse and disrupted parenting: Distinguishing mothers who keep their children from those who do not. *Children and Youth Services Review*, 33(11), tt. 2176–85. <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2011.07.001>
- Grant, T., Graham, J. C., Ernst, C. C., Michelle Peavy, K. and Brown, N. N. (2014). Improving pregnancy outcomes among high-risk mothers who abuse alcohol and drugs: Factors associated with subsequent exposed births. *Children and Youth Services Review*, 46(0), tt. 11–18. <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2014.07.014>
- Griffiths, L. J., Johnson, R. D., Broadhurst, K., Bedston, S., Cusworth, L., Alrouh, B., Ford, D.V. and John, A. (2020). Maternal health, pregnancy and birth outcomes for women involved in care proceedings in Wales: A linked data study. *BMC Pregnancy and Childbirth*, 20(1), tt. 1–13. <https://doi.org/10.1186/s12884-020-03370-4>
- Griffiths, L. J., Mcgregor, J., Pouliou, T., Johnson, R. D., Broadhurst, K., Cusworth, L., North, L., Ford, D. V. and John, A. (2022). Anxiety

and depression among children and young people involved in family justice court proceedings: Longitudinal national data linkage study. *BJPsych Open*, 8(2). <https://doi.org/10.1192/bjo.2022.6>

Harwin, J., Alrouh, B., Broadhurst, K., McQuarrie, T., Golding, L. and Ryan, M. (2018). Child and parent outcomes in the London Family Drug and Alcohol Court five years on: Building on international evidence. *International Journal of Law, Policy and the Family*, 32(2), tt. 140–169. <https://doi.org/10.1093/lawfam/eby006>

Johnson, R. D., Ford, D. V., Broadhurst, K., Cusworth, L., Jones, K. H., Akbari, A., Bedston, S., Alrouh, B. Doebler, S., Lee, A., Smart, J., Thompson, S., Trinder, L. and Griffiths, L. J. (2020). Data Resource: Population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, 5(1). <https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1339>

Johnson, R., North, L., Alrouh, B., John, A., Jones, K., Akbari, A., Smart, J., Thompson, S., Hargreaves, C., Doebler, S., Cusworth, L., Broadhurst, K., Ford, D. and Griffiths, L. (2022). A population-level study into health vulnerabilities of mothers and fathers in public law proceedings in Wales, UK. *International Journal of Population Data Science*, 7(3). <https://doi:10.23889/ijpds.v7i3.2003>

Lemeshow, S., May, S. and Hosmer Jr, D. W. (2011). *Applied survival analysis: Regression modeling of time-to-event data*. 2nd ed. John Wiley and Sons.

Mason, C. and Wilkinson, J. (ar ddot). *Services for parents who have experienced recurrent care proceedings: Where are we now? Findings from the mapping of locally developed services in England*. Research in Practice.

Mason, C. and Wilkinson, J. (2021). *Services for parents who have experienced recurrent care proceedings: Where are we now? Findings from the mapping of locally developed services in England*. Research in Practice. <https://www.researchinpractice.org.uk/media/5474/services-for-parents-who-have-experienced-recurrent-care-proceedings.pdf>

Masson, J., Pearce, J. and Bader, K. (2008). *Care profiling study*. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. www.bristol.ac.uk/media-library/sites/law/migrated/documents/care-profiling-study-report.pdf

McFarlane, A. (2022). *A view from the president's chambers. 'Make every hearing count'*. <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2022/03/A-View-March-2022.pdf>

Morriss, L. (2018). Haunted futures: The stigma of being a mother living apart from her child (ren) as a result of state-ordered court removal. *The Sociological Review*, 66(4), tt. 816–831. <https://doi.org/10.1177/0038026118777448>

- Munby, J. (n.d.). *View from the president's chambers. Care cases – the looming crisis*. <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2014/08/pfd-view-15-care-cases-looming-crisis.pdf>
- Neil, E., Cossar, J., Lorgelly, P. and Young, J. (2010). *Helping birth families: A study of service provision, cost and outcomes*. Briff ymchwil. Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. <http://adoptionresearchinitiative.org.uk/briefs/DCSF-RBX10-05.pdf>
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020). *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*. <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths/datasets/birthsummarytables>
- Pattinson, B., Broadhurst, K., Alrouh, B., Cusworth, L., Doebler, S., Griffiths, L., Johnson, R., Akbari, A. and Ford, D. (2021). *Newborn babies in urgent care proceedings in England and Wales*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.cfj-lancaster.org.uk/app/nuffield/files-module/local/documents/BiC_short_notice_report.pdf
- Philip, G., Bedston, S., Youansamouth, L., Clifton, J., Broadhurst, K., Brandon, M. and Hu, Y. (2021). *'Up against it'. Understanding fathers' repeat appearance in local authority care proceedings*. Sefydliad Nuffield. https://eprints.lancs.ac.uk/id/eprint/153042/1/Up_Against_It_Full_Report.pdf
- Y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus. (2021). *Recommendations to achieve best practice in the child protection and family justice systems*. Swyddfa Llywydd Adran y Teulu. https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2021/03/March-2021-report-final_clickable.pdf
- Roberts, L., Maxwell, N., Messenger, R. and Palmer, C. (2018) *Evaluation of Reflect in Gwent: Final report*. Cascade. <https://core.ac.uk/download/pdf/210589309.pdf>
- StatsCymru. (2021). Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a math o leoliad. *Plant sy'n derbyn gofal*. <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After>
- Taplin, S. and Mattick, R. P. (2015). The nature and extent of child protection involvement among heroin-using mothers in treatment: High rates of reports, removals at birth and children in care. *Drug and Alcohol Review*, 34(1), tt. 31–37. <https://doi.org/10.1111/dar.12165>
- Wise, J. (2021). Reverse cuts to children's centres, peers urge government. *BMJ*, 375. <https://www.bmj.com/content/375/bmj.n2851.short>

Atodiad A

Mae'r atodiad technegol hwn yn cynnwys pedair adran fer ar (1) y data gweinyddol y mae'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) yn ei ddal, (2) adeiladu ein cronfa ddata ymchwil, (3) cydgyrnhoi gorchmynion cyfreithiol lluosog, a (4) set ddata'r ymchwil.

Cronfeydd data gweinyddol Cafcass

Cofnodion achos digidol a gadwyd yn ganolog gan Cafcass a Cafcass Cymru oedd y brif ffynhonnell ddata ar gyfer yr astudiaeth hon. Cyflwynodd Cafcass [Lloegr] ei system rheoli achosion (CMS) yn 2007, a ddisodlwyd gan system rheoli achosion electronig (ECMS) ym mis Gorffennaf 2014. Mae gan Cafcass Cymru ei system rheoli achosion ei hun ac roedd cofnodion y gellid eu defnyddio ar gael o 2011 ymlaen.

Mae'r systemau data gweinyddol hyn yn gronfeydd data perthynol electronig sy'n cynnwys data rhifiadol a thestun y gellir ei reoli, ei archwilio a'i drin gan ddefnyddio meddalwedd Iaith Ymholiadau Strwythuredig (SQL).

I gael manylion pellach am gronfeydd data perthynol, methodoleg, proses gysylltu data, a meini prawf cynhwysiant Cafcass (CMS ac ECMS) a Cafcass Cymru, trowch at yr adnoddau data technegol canlynol:

- Alrouh, B. and Broadhurst, K. (2015). *Vulnerable birth mothers and recurrent care proceedings: Estimating recurrent care proceedings using CAF/CASS administrative data - a technical appendix*. http://wp.lancs.ac.uk/recurrent-care/files/2015/12/TechnicalAppendixRC_2015_V1.0.pdf
- Bedston, S., Pearson, R.J., Jay, M.A., Broadhurst, K., Gilbert, R., and Wijlaars, L. (2020). Data resource: Children and Family Court Advisory and Support Service (Cafcass) public family law administrative records in England. *International Journal of Population Data Science*, 5 (1). <https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1159>
- Johnson, R.D., Ford, D.V., Broadhurst, K., Cusworth, L., Jones, K.H., Akbari, A., Bedston, S., Alrouh, B., Doebler, S., Lee, A. and Smart, J. (2020). Data Resource: Population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, 5(1). <https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1339>


Mae rhestr lawn o'r holl dablau a newidynnau yn nata Cafcass a Cafcass Cymru ar gael o:

<https://web.www.healthdatagateway.org/search?search=Cafcass&tab=Dataassets>

Cronfa ddata Cafcass wedi'i chysoni

Mae cronfa ddata berthynol SWL yn cysoni tair gwahanol system rheoli achosion – Cafcass CMS, Cafcass ECMS, a Cafcass Cymru – gan gyfrif am y gwahaniaethau rhyngddynt i gynhyrchu set ddata gysylltiedig at ddiben ein hymchwil. Mae Ffigur A.1 yn arddangos y diagram perthynas endid (ERD) ar gyfer cronfa ddata ymchwil Cafcass a Cafcass Cymru wedi'i chysoni.

Ffigur A.1: Cronfa ddata Cafcass wedi'i chysoni: Diagram perthynas endid



Sylwer: Mae'r saethau'n dangos y berthynas rhwng y tablau yn sampl data Cafcass a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth.

Tabl A.1: Cronfa ddata Cafcass wedi'i chysoni – tablau a newidynnau

| Enw'r tabl | Y newidynnau allweddol i'r astudiaeth hon |
|------------------------------|--|
| Achos | <p>ID Cafcass: Mae'n gwahaniaethu rhwng achosion Cafcass (CMS/ECMS) a Cafcass Cymru</p> <p>ID Achos: Y cod adnabod unigryw a roddir i bob achos</p> <p>Math o gyfraith: Mae'n gwahaniaethu rhwng cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat</p> <p>Statws yr achos: mae'n gwahaniaethau rhwng achosion wedi'u cau (h.y. eu cwblhau) ac achosion parhaus</p> <p>Awdurdod lleol: Awdurdod lleol yr achos</p> <p>Dyddiad cau: Dyddiad cwblhau'r achos cyfan</p> |
| Cais | <p>ID y Cais: Y cod adnabod unigryw a roddir i bob achos</p> <p>Cyfeirnod yr achos: Mae'n cyfeirio at ID yr achos yn nhabl yr achos</p> <p>Llys: Y llys y cyflwynwyd y cais iddo</p> <p>Dyddiad cyhoeddi: Dyddiad dechrau'r cais</p> <p>Dyddiad cwblhau: Dyddiad gorffen y cais</p> |
| Math o gais | <p>Cyfeirnod yr achos: Mae'n cyfeirio at ID yr achos yn nhabl yr achos</p> <p>Cyfeirnod y cais: Mae'n cyfeirio at ID y cais yn nhabl y cais</p> <p>Math o gais: Y math o gais (e.e. goruchwyliaeth, gofal)</p> |
| Gwrandawriad | <p>ID gwrandawriad yr achos: Y cod adnabod unigryw a roddir i bob gwrandawriad</p> <p>Cyfeirnod yr achos: Mae'n cyfeirio at ID yr achos yn nhabl yr achos</p> <p>Dyddiad y gwrandawriad: Dyddiad y gwrandawriad</p> <p>Math o wrandawriad: Y math o wrandawriad (e.e. cyntaf, adolygu, terfynol)</p> |
| Person | <p>ID y person: Cod adnabod unigryw a roddir i bob person</p> <p>Dyddiad geni: Dyddiad geni'r person</p> <p>Rhywedd: Mae'n gwahaniaethu rhwng gwryw, benyw a heb nodi</p> |
| Perthnasoedd y person | <p>ID perthynas y person: Cod adnabod unigryw a roddir i bob perthynas</p> <p>Cyfeirnod person 1: ID y person cyntaf. Mae'n cyfeirio at ID y person yn nhabl y person</p> <p>Cyfeirnod person 2: ID yr ail berson. Mae'n cyfeirio at ID y person yn nhabl y person</p> <p>Math o berthynas: Y math o berthynas rhwng person 1 a pherson 2 (e.e. rhiant, plentyn, brawd/chwaer)</p> |
| Person y cais | <p>Cyfeirnod y cais: Mae'n cyfeirio at ID y cais yn nhabl y cais</p> <p>Cyfeirnod y person: Mae'n cyfeirio at ID y person yn nhabl y person</p> <p>Yr ymgeisydd: A yw'r cofnod yn cyfeirio at ymgeisydd</p> <p>Yr ymatebwr: A yw'r cofnod yn cyfeirio at ymatebwr</p> <p>Y pwnc: A yw'r cofnod yn cyfeirio at bwnc</p> <p>Arall: A yw'r cofnod yn cyfeirio at unrhyw rôl arall yn y cais</p> <p>Parti: A yw'r cofnod yn cyfeirio at berson sy'n barti i'r achos</p> |
| Canlyniad cyfreithiol | <p>Cyfeirnod yr achos: Mae'n cyfeirio at ID yr achos yn nhabl yr achos</p> <p>Cyfeirnod y cais: Mae'n cyfeirio at ID y cais yn nhabl y cais</p> <p>Cyfeirnod y person: Mae'n cyfeirio at ID y person yn nhabl y person</p> <p>Cyfeirnod y gwrandawriad: Mae'n cyfeirio at ID y gwrandawriad yn nhabl y gwrandawriad</p> <p>Math o ganlyniad cyfreithiol: Y math o orchymyn cyfreithiol (e.e. gofal, lleoli, goruchwyllo)</p> <p>Math o ganlyniad cyfreithiol: Dyddiad y canlyniad cyfreithiol</p> <p>Terfynol: A yw'r cofnod yn cyfeirio at orchymyn cyfreithiol terfynol</p> |

Cydgrynhoi categorïau gorchmynion cyfreithiol

O gofio nad yw Cafcass yn cofnodi data lleoliadau plant, ac mae Cafcass Cymru yn cofnodi data'r gorchmynion cyfreithiol terfynol yn ôl cais yn unig, ac nid yn ôl plentyn, daethom i gasgliad am ganlyniadau parhaol plant ar sail y gorchmynion cyfreithiol terfynol (Broadhurst et al. 2015). Creom bedwar categori o orchmynion cyfreithiol a'u trefnu yn ôl lefel yr ymyrraeth, gan amrywio o'r ymyrraeth leiaf i'r ymyrraeth fwyaf (Tabl A.2).

Tabl A.2: Categorïau gorchmynion cyfreithiol

| Gorchmynion cyfreithiol fel y'i cofnodwyd yn Cafcass | Categoriâu dadansoddi |
|---|-------------------------|
| <ol style="list-style-type: none"> Ni wnaed gorchmyn Gorchmynion dim gorchmynion (ONO) Gorchmynion goruchwylio (SO) Gorchmynion cymorth teulu (FAO) | Gyda rhieni |
| <ol style="list-style-type: none"> Gorchmynion trefniadau plant (CAO) Gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig (SGO) | Gyda theulu a ffrindiau |
| <ol style="list-style-type: none"> Gorchmynion gofal (CO) | Mewn gofal |
| <ol style="list-style-type: none"> Gorchmynion lleoli (PO) Gorchmynion mabwysiadu (AO) | Gosod i'w mabwysiadu |


Sylwer: * Mae'n cynnwys ceisiadau wedi'u 'gwrthod', eu 'gollwng' neu eu 'hatal'.

Set ddata ymchwil

Roedd ffocws yr astudiaeth ar achosion a.31 o dan Ddeddf Plant 1989. Cafodd yr holl famau yr arsylwyd arnynt yn ystod blynyddoedd ariannol 2011/21 a 2020/21 yng Nghymru a Lloegr eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Defnyddiwyd cronfa ddata ymchwil AQL i ailstrwythuro'r set ddata hydredol (gweler Ffigur A.2) trwy gysylltu pob mam â'i holl geisiadau gofal a goruchwylio o dan a.31, ac yna cysylltu'r plant â'u canlyniadau cyfreithiol â chofnodion eu mam.

Ffigur A.2: Set ddata ymchwil: Episodau cysylltiedig



Mae'r set ddata ymchwil derfynol yn cynnwys y canlynol a nodir yn Tabl A.3.

Tabl A.3: Set ddata ymchwil: Newidynnau

| Enw'r newidyn | Ystyr |
|---|---|
| ID Cafcass | Mae'n gwahaniaethu rhwng achosion Cafcass (CMS/ECMS) a Cafcass Cymru |
| Rhif yr episod | Rhif yr episod (Mynegai, episod cyntaf a ailadroddir, ail episod a ailadroddir) |
| Dyddiad cyhoeddi A31 | Blwyddyn ariannol dyddiad cyhoeddi'r cais a.31 cyntaf yn yr episod hwn |
| Oedran y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf | Deuir i gasgliad am oedran y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf o oedran ei phlentyn hynaf mewn achos cyntaf, ac oedran y fam. Rydym yn cymryd yn ganiataol mai plentyn hynaf y fam yw ei phlentyn cyntaf. |
| Oedran y fam adeg dechrau'r episod | Oedran y fam ar ddyddiad dechrau (dyddiad cyhoeddi cais a.31 cyntaf) yr episod hwn |
| Nifer y plant | Nifer y plant sy'n destun yr episod hwn |
| Oedran y plentyn ieuengaf | Oedran y gwrthrych ieuengaf yn yr episod hwn ar ddyddiad dechrau (dyddiad cyhoeddi a.31 cyntaf) yr episod |
| Symud rhwng ALLau | Mae'n nodi a yw awdurdod lleol yr episod hwn yn wahanol i awdurdod lleol yr episod blaenorol |
| Gorchymyn cyfreithiol uchaf | Canlyniadau parhaol plant a gesglir ar sail y gorchymyn cyfreithiol terfynol (gweler Tabl A.2) |
| Statws ailadrodd | Mae'n gwahaniaethau rhwng Nid yw'n dychwelyd, Llwybr 1 (dychwelyd gydag o leiaf 1 plentyn newydd), Llwybr 2 (dychwelyd gyda phlentyn blaenorol) |
| Achosion yn gorgyffwrdd | Mae'n nodi a ddechreuodd yr episod hwn cyn cwblhau'r episod blaenorol |
| Bwlch rhwng achosion | Y cyfnod rhwng dechrau'r episod blaenorol a dechrau'r episod hwn |
| Bwlch rhwng bechiogrwydd | Y cyfnod rhwng bechiogrwydd y fam. Deuir i gasgliad am hyn o enedigaeth y plentyn ieuengaf yn yr episod blaenorol a genedigaeth y plentyn newydd hynaf yn yr episod hwn (llai 9 mis am gyfnod bechiogrwydd bras) |
| Yr achos nesaf | Mae'n nodi a yw'r fam yn cael episod pellach ar ôl yr episod hwn. Fe'i defnyddir fel <i>digwyddiad mynych</i> yn y dadansoddiad goresi |
| Amser goresi | Yr amser cyn dechrau'r episod hwn a naill ai dechrau'r episod nesaf, neu ddiwedd y ffenestr arsylwi. Fe'i defnyddir fel yr <i>amser</i> yn y dadansoddiad goresi |

Atodiad B

Tabl B.1: Ystadegau disgrifiadol, Lloegr, 2011/12–2020/21

| | Ddim yn dychwelyd | | Llwybr 1 O leiaf un plentyn newydd | | | | Llwybr 2 Plentyn blaenorol | | | |
|---|-------------------|---------|---------------------------------------|---------|-----------------------------|------------|-------------------------------|---------|-----------------------------|------------|
| | Mynegai | | Mynegai | | Episod cyntaf a ailadroddir | | Mynegai | | Episod cyntaf a ailadroddir | |
| | N | [%] | N | [%] | N | [%] | N | [%] | N | [%] |
| Nifer y mamau | 73,615 | [100.0] | 12,772 | [100.0] | 12,772 | [100.0] | 4,433 | [100.0] | 4,433 | [100.0] |
| Math o gais a.31¹ | | | | | | | | | | |
| Gorchymyn gofal | 65,789 | [89.4] | 11,821 | [92.6] | 11,599 | [90.8] | 3,861 | [87.1] | 3,743 | [84.4] |
| Gorchymyn goruchwyllo | 7,826 | [10.6] | 951 | [7.4] | 1,173 | [9.2] | 572 | [12.9] | 690 | [15.6] |
| Oedran y fam adeg rhoi genedigaeth am y tro cyntaf | | | | | | | | | | |
